Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

Cynllun Busnes GwE

2021-2022

Adroddiad Cynnydd Chwarter 4

www.gwegogledd.cymru @GwEGogleddCymru

CYNNWYS

1. **Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2021-2022**

    - **Blaenoriaethau rhanbarthol a darpariaeth sy'n cyfrannu at flaenoriaethau awdurdodau lleol – Adroddiad Cynnydd ar gyfer Chwarter 4**

2. **Atodiad: Data Rhanbarthol**

1. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL GwE

BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RHANBARTHOL 2021-2022

Adroddiad Cynnydd ar gyfer Chwarter 4 (01/01/2022 – 31/03/2022)

AMCAN 1 – CWRICWLWM AC ASESU **Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol gyda thegwch a rhagoriaeth wrth ei wraidd sy'n gosod safon uchel i bob dysgwr**
CONTINWWM ADDYSG 3 I 16
Sicrhau cymorth i ysgolion wrth iddynt ymateb i'r daith diwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar y pedwar diben, y 12 egwyddor addysgegol ac ymchwil gweithredol. Cyflwynwyd hyfforddiant ymestynnol ar lefel uchel ar y Daith Ddiwygio i arweinwyr ysgolion ar draws y rhanbarth ac mae hyn wedi parhau y tymor hwn (cyfeirier at Gwireddu'r Cwricwlwm). Cynigiwyd gweithdai i holl arweinwyr ysgolion ar weledigaeth a chynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Cwricwlwm i Gymru (CiG) sydd wedi cynnwys dechrau meddwl am gynllunio ar gyfer cynnydd a lle y 12 egwyddor addysgegol yn y cwricwlwm. Mewn ysgolion uwchradd, bu arweinwyr dysgu ac addysgu mewn ysgolion yn rhan o drafodaethau drwy fforymau ar ble maen nhw'n gweld eu cryfderau a'u hanghenion datblygu ar gyfer gwella addysgeg yn eu hysgolion, a fydd yn bwydo i'r cynnig o fis Medi ymlaen. Gofynnodd rai ysgolion am fewnbwn ar yr hyn sy'n gwneud dysgu ac addysgu da er mwyn gwneud cynnydd, a datblygwyd hyfforddiant yn seiliedig ar y 12 egwyddor. Mae'r cynllunio yn parhau ar gyfer y Cynnig Dysgu ac Addysgu. Ym mis Ionawr, tynnwyd sylw pob ysgol uwchradd at y cynnig gan y Grŵp Dysgu ac Addysgu uwchradd i gael cymorth gyda dysgu proffesiynol yng nghyd-destun Dysgu ac Addysgu, megis cwestiynu, gwahaniaethu a herio. Mae deuddeg ysgol wrthi'n cael cefnogaeth gyda naill ai model 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' neu gyflwyniad DP uniongyrchol i staff gan ymgynghorwyr cefnogi GwE. **Sicrhau defnydd da neu well o strategaethau asesu ffurfiannol ym mhob ysgol** **Prosiect Ymchwil Gweithredol GwE a Shirley Clarke** Fel parhad i'r prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol (GwE a Shirley Clarke) sydd wedi bod ar waith yn y rhanbarth ers mis Hydref 2017, cynhaliwyd dwy weminar yn ystod oriau gwyll yn nhymor yr Hydref 2021 gyda Shirley Clarke ar gyfer holl ysgolion y rhanbarth: • 28/09/2021 - adolygu egwyddorion asesu ffurfiannol ac ymchwil diweddar • 12/10/2021 - 'Adborth' Roedd dros 1000 o athrawon o bob rhan o'r rhanbarth yn bresennol yn y ddwy sesiwn. Cafodd yr holl athrawon fynediad at negeseuon uniongyrchol gan Shirley Clarke er mwyn adennill momentwm ac adolygu eu harferion ar sail yr ymchwil diweddaraf. Mae hyn wedi bod o gymorth i'r holl ymarferwyr ac arweinwyr dysgu gyda datblygiad pellach ac gwreiddio ymarfer addysgegol da a chyson wrth baratoi ar gyfer y CiG. Mae hefyd wedi cefnogi gwaith ysgolion y rhanbarth wrth iddynt ystyried ac esblygu addysgeg ymhellach mewn paratoad at Gwricwlwm i Gymru. **Cynnydd ac Asesu: Sicrhau cysondeb yn nealltwriaeth ysgolion o egwyddorion allweddol y canllawiau asesu newydd - tri diben asesu - o ddydd i ddydd, nodi a chofnodi cynnydd a deall cynnydd grŵp** Cyflwynwyd prif negeseuon Canllaw Asesu Cwricwlwm i Gymru a chanllaw Estyn i Arolygwyr ar gynnydd ac asesu i YCG GwE er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r gofynion allweddol. Cynhaliwyd 6 sesiwn ar gynnydd ac asesu i ysgolion cynradd y rhanbarth gyda 649 o unigolion a/neu grŵp o staff yn mynychu un o'r sesiynau. Ffocws y sesiynau oedd prif negeseuon Canllaw Asesu Cwricwlwm i Gymru a chanllaw Estyn i Arolygwyr yn ogystal ag ambell enghraifft o ysgolion ar hyd a lled y rhanbarth. Cynhaliwyd 4 sesiwn ar asesu a chynnydd i ysgolion uwchradd y rhanbarth. Ffocws y sesiynau oedd prif negeseuon Canllaw Asesu Cwricwlwm i Gymru a chanllaw Estyn i Arolygwyr yn ogystal ag ambell enghraifft o ysgolion ar hyd a lled y rhanbarth. Bu presenoldeb ar y sesiynau hyn yn dda iawn ac fe'u croesawyd yn fawr gyda nifer o ysgolion uwchradd yn cyfeirio at eu buddioldeb ac yn gofyn am gam nesaf y cymorth oherwydd y sesiynau hyn. Mae YCG yn

cynnig cymorth ychwanegol yn yr ysgol neu'r Cynghreiriau i ddatblygu eu dealltwriaeth, yn benodol i anghenion ysgolion. Mae'r cyflwyniadau a recordiad o'r sesiynau ar gael ar wefan GwE gyda nifer o ysgolion yn gwneud cais amdanynt gyda rhai am eu defnyddio gyda'r staff cyfan neu gyda'r Llywodraethwyr.

Mae nifer o ysgolion y rhanbarth yn rhan o'r Grwpiau Rhanbarthol / Lleol sydd yn trin a thrafod y gofynion newydd. Rhannwyd rhagflas o'r cyflwyniadau i ysgolion gyda'r grwpiau rhanbarthol a lleol.

Mae 15 o gynrychiolwyr o ysgolion GwE – cynradd, uwchradd ac arbennig wedi bod yn rhan o 4 sesiwn Prosiect Camau (Prifysgol Glasgow a'r Drindod) er mwyn datblygu adnodd i ysgolion ar gynnydd ac asesu.

Crëwyd Cofnod Cynnydd ar ffurf Excel gyda nifer o ysgolion ar draws y rhanbarth yn ei dreialu a cynnig adborth defnyddiol. Y bwriad yw y bydd yn barod erbyn y Sulgwyn.

Mae ychydig o glystyrau wedi derbyn sesiynau penodol ar y traciwr ac mae rhai ysgolion wedi derbyn sesiynau unigol ar asesu mewn cyfarfodydd staff.

Trosglwyddo/Pontio: Cefnogi a chyd-lunio darpariaeth ac arweinyddiaeth ar gyfer trosglwyddo efo clystyrau. Datblygu cydweithio ar draws sectorau ar drosglwyddo a rhannu arferion da

Darparwyd canllawiau LlC ar asesu ar gyfer CiG i bob ysgol drwy'r gweithdai dysgu proffesiynol ar gynllunio'r cwricwlwm, sesiwn 2. Mae'r rhain ar gael ar y ganolfan cefnogaeth ac mae ysgolion yn parhau i droi at y cyngor drwy'r adnodd hwn. Darparwyd rhagor o ganllawiau i ffederasiynau penaethiaid ar draws y rhanbarth. Darparwyd canllawiau wedi'u diweddaru gan y tîm asesu drwy'r gweithdai asesu a chynnydd.

Mae clystyrau yn dechrau rhannu arferion llwyddiannus o ran trosglwyddo ac yn cydweithio ar draws a rhwng ysgolion er mwyn datblygu cwricwlwm 3-16. Mae lleiafrif bach o glystyrau wedi cynllunio i rannu'r addysgu drwy hyn rhwng staff ysgol uwchradd ac ysgol cynradd, sy'n cynnwys grwpiau oedran cymysg wrth gynllunio a gweithredu.

Mae arferion llwyddiannus yn dechrau cael eu rhannu yn rhanbarthol drwy'r rhwydweithiau - bydd hyn yn digwydd ymhellach tymor nesaf. Mae rhai ysgolion yn cefnogi hyblygrwydd cynnydd drwy ddefnyddio iaith y continwwm 3-16.

Diweddarwyd tîm llawn GwE ar y canllawiau Cwricwlwm i Gymru perthnasol ar gyfer ysgolion a chlystyrau.

Bydd rhagor o ganllawiau i ysgolion i ddilyn yn 2022-23 gan gynnwys canllawiau ar ddatblygu cynllun pontio clwstwr i gyd-fynd â gofynion Cwricwlwm i Gymru.

Mae staff GwE wedi gweithio 3-16 ar gynllunio'r Cwricwlwm i Gymru. Mae clystyrau CiG wedi cydweithio drwy hyfforddiant 3-16 CiG sydd wedi paratoi'r ffordd ar gyfer rhagor o gydweithio. Mae YCG wedi hwyluso trafodaethau i gefnogi'r cynllunio hwn mewn amryw o glystyrau yn y rhanbarth. Bu rhwydweithiau asesu a chynnydd a gweithdai GwE yn rhannu arferion llwyddiannus o ran trosglwyddo ac yn tanlinellu'r angen am gynllun trosglwyddo newydd. Dechreuwyd ar y broses ac mae rhai adnoddau eisoes yn barod. Bydd rhagor o'r rhain ar gael dros y tymor nesaf.

Mae bron pob ysgol wedi bod mewn hyfforddiant neu gyfarfodydd ble rhoddwyd sylw i agweddau ar drosglwyddo. Uwch sgiliwyd tîm GwE mewn agweddau ar drosglwyddo fel strategaethau llwyddiannus i drosglwyddo gwybodaeth ansoddol a diweddariadau am Cwricwlwm i Gymru. Cymerwyd camau cychwynnol i roi sylw i'r meini prawf llwyddiant, er hynny, bydd angen rhoi sylw pellach i'r rhain yn Nhymor yr Haf 2022 i sicrhau effaith ar ddysgwyr. Rhoddwyd cyllid i glystyrau er mwyn cynllunio ar gyfer trosglwyddo a thynnwyd eu sylw y bydd hyfforddiant i ddilyn tymor nesaf ac yn ystod y flwyddyn academaidd sydd i ddod. Unwaith y bydd y cynlluniau cychwynnol ar waith, bydd angen ymestyn y trosglwyddo i gynnwys 3-25, trosglwyddo o fewn ysgol, pontio ADY, pontio mewn cyflogaeth/AB/AU ac ati a rhannu arferion arloesol llwyddiannus ar draws y rhanbarth. Fel hyn, gall dysgwyr wneud cynnydd yn gyflymach, yn enwedig dysgwyr bregus, a bydd cefnogaeth i blant a phobl ifanc y rhanbarth ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol, cyfrifol, arloesol, iach a mentrus drwy gydol eu hoes.

<u>Cymorth i'r uwchradd ar gyfer datblygu dysgu ac addysgu</u>

Rhoddwyd cynnig at ei gilydd eleni i ysgolion uwchradd ynghylch datblygu addysgeg, yn canolbwyntio ar agweddau

fel cwestiynu effeithiol, gwahaniaethu a herio, er enghraifft. Cafodd nifer o ysgolion gymorth drwy ddarparu HMS i bob aelod staff ar feysydd fel hyn, sydd wedi'u datblygu ar y cyd dan arweiniad yr ysgol ac yna'u gwerthuso a'u monitro wedyn i weld eu heffaith. Mae'r cynnig wedi gwella'r pwyslais ar addysgeg mewn nifer o ysgolion ac wedi bodloni'r angen clir a nodwyd ym mhrosesau AHA/CGY llawer o ysgolion.

GWIREDDU'R CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)

Sicrhau cefnogaeth i ysgolion mewn cysylltiad â Dylunio Cwricwlwm yr ysgol gyfan ac o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh)

Cefnogi'r ysgolion ar hyd y daith at 2022 gan ddarparu dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd

Wrth i ysgolion a GwE gydweithio ar gyd-lunio enghreifftiau a modelau diriaethol, mae ysgolion wedi gallu dychmygu a deall agweddau ar ddylunio cwricwlwm lefel uchel/crynhoi cwricwlwm yn well. Mae defnyddio sgiliau technoleg ddigidol wedi galluogi nifer cynyddol o ysgolion a'u staff i ddilyn y sesiynau DP yn bersonol fel bod deialog mwy cyfoethog o fewn ysgolion. Gellir addasu sesiynau dysgu proffesiynol, a drefnir ac a gynigir i gynulleidfaoedd llai ar draws cyfres o sesiynau, i weddu i gyd-destunau unigryw clystyrau ac maent yn arwain at lefel uchel o bresenoldeb ac ymroddiad gan ysgolion. Drwy ddefnyddio technoleg ddigidol i greu padledi a gwefannau, gall ysgolion gofnodi eu trafodaethau yn ystod sesiynau DP a mynd ati i drafod ymhellach o fewn eu lleoliadau ysgol eu hunain. Mae nifer cynyddol o ysgolion yn rhannu'u gwaith ag eraill o ganlyniad i ddefnyddio deunyddiau o sesiynau i UDA gyda'u staff eu hunain e.e. datblygu gweledigaeth a rennir, crynodeb dylunio cwricwlwm.

<u>Trosolwg byr o weithgareddau dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael</u>

Bu'r Gweithdai Cwricwlwm i Gymru yn sylfaen i uwch dimau arweinyddiaeth gefnogi eu paratoadau ar arwain newid, datblygu gweledigaeth a rennir a chynllunio ar gyfer newid yn y cwricwlwm.

- Cynhaliwyd sesiynau Arwain Newid ym mis Chwefror 2021 gyda 30 o sesiynau a 732 o ymarferwyr UDA yn bresennol.
- 54 sesiwn yn ystod mis Mehefin - Gorffennaf 2021 ar sesiynau gweledigaeth a rennir, cynllunio ar gyfer newid yn y cwricwlwm (108 awr o ddysgu proffesiynol).
- Y % sydd wedi mynychu 1 sesiwn neu ragor ym mis Mehefin/Gorffennaf oedd 80.3%
- Mynychodd 1155 y sesiynau = 2310 awr o Ddysgu Proffesiynol i arweinwyr ysgolion.
- Mae gan bob clwstwr fynediad at ddolen i wefan benodol efo padledi a dogfennau cydweithredol sydd yn ganolfan adnoddau ganolog i waith DP, cofnodi trafodaethau ac adnabod meysydd ar gyfer mwy o drafodaethau lleol.

<u>Cynhaliwyd Gweithdai Dylunio'r Cwricwlwm yn ystod tymor y Gwanwyn 2022:</u>

- Y gynulleidfa darged oedd aelodau UDA a chynhaliwyd 10 sesiwn rithiol dros wythnos ym mis Mawrth 2022.
- Roedd 101 o aelodau UDA uwchradd, 504 o aelodau UDA cynradd, ysgolion arbennig/UCD 16 ac 8 consortia arall/Estyn yn bresennol.
- Defnyddiodd lawer o'r UDA y sesiynau hyn i gael mwy o staff i ymuno â'r weminar i drafod.
- Cafodd bob ysgol fynediad at y deunydd hwn a chynhaliwyd sesiynau dilynol efo UDA yn y rhan fwyaf o ysgolion/clystyrau.
- Gall rhwydweithiau CiG rhanbarthol a lleol fwydo i ddysgu proffesiynol gydag enghreifftiau o grynodebau cwricwlwm lefel uchel ac egwyddorion dylunio yn unol â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru: y daith at gyflwyno.

<u>Cynhaliwyd Gweithdai Cynnydd ac Asesu yn ystod tymor y Gwanwyn 2022.</u>

- Targedwyd aelodau UDA a chynhaliwyd 10 sesiwn rithiol dros wythnos ym mis Mawrth 2022.
- Roedd 141 o aelodau UDA uwchradd, 620 o aelodau UDA cynradd, ysgolion arbennig/UCD 18 ac 11 consortia eraill/Estyn yn bresennol.
- Mae Rhwydweithiau CiG yn bwydo i enghreifftiau a rennir ar bwrpas asesu, ynghyd â Phenaethiaid yn rhannu eu profiadau nhw.
- Cafwyd sylwadau hynod gadarnhaol e.e. "roedd y sesiwn yn taro'r hoelen ar ei phen! Cyflwynwyd negeseuon mewn ffordd glir a syml".
- Mae'r holl ddeunyddiau a'r recordiadau ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE, safle sydd yn cael nifer cynyddol o ymweliadau a dogfennau yn cael eu lawr lwytho.

Egwyddorion Gweithdai Cynllunio i ddilyn mis Ebrill 2022 (ail-drefnwyd yn sgil sylwadau gan ysgolion ynghylch eu cynhwysedd).

Gwahaniaeth a wnaed:

- Lefelau ymwneud yn uwch ar draws y rhanbarth ymysg aelodau UDA ac athrawon ers Haf 2021 - pob ysgol yn ymwneud â'r cynnig DP.
- Aelodau UDA ac athrawon yn fwy hyderus o ran deall egwyddorion y fframwaith CiG ac wrth gynllunio i gyrraedd y gofynion statudol newydd.
- Bu pob YCG yn rhan o ddeialog broffesiynol gyson ag aelodau UDA ar draws pob ysgol fel dilyniant i'r cynnig DP lleol, ac yn cynnig DP unigryw i anghenion ysgolion unigolion ble'n briodol.
- Mwy o ysgolion 'ar drac' i fodloni'r gofynion statudol newydd erbyn mis Medi 2022 (adroddiad chwe cham).
- Mae nifer cynyddol o enghreifftiau o Uwch Arweinwyr mewn ysgolion yn defnyddio adnoddau DP i ymwneud ymhellach â'r holl staff e.e. arwain newid, datblygu enghreifftiau o weledigaeth a rennir, efo GwE.
- Mae rhaglen glir ar gyfer dysgu proffesiynol rheolaidd i YCG gyda'r Athro Graham Donaldson wedi arwain at wella dealltwriaeth a chodi hyder ar draws y tîm - gan arwain at gydweithwyr cynradd ac uwchradd yn dod i ddeall y continwwm 3-16 yn well.
- Drwy rannu negeseuon integredig ar draws y tîm, gall yr YCG ddilyn hyn mewn dosbarthiadau ac ystafelloedd athrawon e.e. DP CiG - llawer o enghreifftiau o ysgolion yn rhannu eu gweledigaeth ac yn defnyddio map ffordd i gynllunio blaenoriaethau gweithredu ar gyfer 2020-21, gwaith dilynol ar ddylunio cwricwlwm lefel uchel.
- Mwy o glystyrau yn gofyn am ragor o DP yn ystod eu dyddiau HMS i sicrhau bod y prif negeseuon yn cael eu rhannu â phob aelod staff, nid yn unig yr UDA.

TIMAU MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD (MDPh)

Trosolwg byr o'r gweithgareddau

- Gwahoddwyd pob ysgol i fod yn rhan o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Cymru rhanbarthol a lleol. Dangosodd 300+ ddiddordeb erbyn Gorffennaf 2021, a chododd hyn i 700+ erbyn mis Hydref 2021. Erbyn mis Mawrth 2022, mae 804 o aelodau o blith ysgolion, YCG GwE, cydweithwyr o'r ALl, a staff CABAN.
- Sefydlwyd 48 rhwydwaith lleol - 6 MDaPh, dylunio cwricwlwm, cynnydd ac asesu.
- Sefydlwyd un rhwydwaith rhanbarthol ble mae rhwng 115 a 130 o ymarferwyr yn bresennol yn rheolaidd.
- Sefydlwyd trefn gyda chyfarfodydd rhanbarthol misol ble mae'r Athro Graham Donaldson yn bresennol ac yn cynnig arweiniad/sylwadau.
- Bydd pob cyfarfod lleol ar draws y chwe ALl yn gyfarfod misol rhwng y cyfarfodydd rhanbarth.
- Mae cyfathrebu yn agwedd allweddol ar rannu gwaith gyda phob ysgol drwy YCG GwE, y wefan, diweddariadau rheolaidd mewn fforymau Penaethiaid.
- Sefydlwyd isadeiledd TEAMS ble mae gan bob rhwydwaith rhanbarthol a lleol rhywle penodol ble gallant rannu gwaith a chydweithio.

Gwahaniaeth a wnaed:

- Gyda 117-130 o aelodau'r grŵp Rhwydwaith yn cyfarfod pob mis, mae dealltwriaeth o fframwaith ac egwyddorion Cwricwlwm i Gymru wedi dyfnhau'n sylweddol.
- Yn ôl cadeiryddion rhanbarthol, sydd yn ymarferwyr ysgol, mae eu hyder a'u perchnogaeth wedi codi o ran sefydlu sianeli cyfathrebu, arwain trafodaethau mewn fforymau lleol ac ar draws clystyrau o ysgolion.
- Mae mwy o ysgolion yn datblygu ac yn rhannu enghreifftiau o'u dulliau dylunio a chynllunio'r cwricwlwm.
- Nifer cynyddol o ymweliadau â'r wefan i gael gafael ar ddeunyddiau ac enghreifftiau sydd wedi'u rhannu gan rwydweithiau ac ysgolion - 3923 o ymweliadau ar y dudalen Rhwydweithiau o fewn Cwricwlwm i Gymru rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022.
- Mwy o ddefnydd a chyfathrebu ar draws TEAMS ble mae unigolion o fewn rhwydweithiau yn rhannu negeseuon allweddol ac enghreifftiau o rannu pellach o fewn eu clystyrau a'r cynghreiriau uwchradd.
- Hyder yn y system bod strategaeth glir a thryloyw i ymateb i'r gofynion statudol erbyn Medi 2022.
- Mwy o gydweithio efo GwE ac ysgolion drwy gynnwys YCG yn y grwpiau lleol - YCG yn gallu hwyluso a bod yn bresennol mewn cyfarfodydd lleol, rhannu'r arferion gorau a sicrhau cysondeb negeseuon ar draws y rhanbarth.
- Enghreifftiau unigol o glystyrau yn amlwg yn perchnogi ac yn sicrhau bod pob ysgol yn rhan o'r rhwydweithiau, yn creu newyddlenni ac yn rhannu negeseuon allweddol.
- Wrth i athrawon arwain cyfarfodydd a rhannu gwaith mewn cyfarfodydd rhanbarthol i egluro prosesau a

rhannu'r dysgu,
mae hyn yn cefnogi cydweithwyr i adnabod sut i ddatblygu eu gwaith eu hunain a modelu ymddygiad.

- Mwy o berchnogaeth ar gyfarfodydd lleol gan Gadeiryddion lleol, yn cydweithio gyda chyd-gadeiryddion a chydweithwyr GwE i osod agenda, adrodd yn ôl o gyfarfodydd rhanbarthol ac arwain trafodaethau lleol, gan ddatblygu
prosesau i'w rhannu o fewn ysgolion lleol.
- Mae isadeiledd wrthi'n cael ei sefydlu fel bod modd i ysgolion ar draws y rhanbarth gydweithio a chyfathrebu â'i gilydd er mwyn rhannu a datblygu dyfnder y ddealltwriaeth wrth ddylunio'r cwricwlwm.
- Mae enghreifftiau a modelau wedi'u cyd-lunio gan ysgolion a GwE wedi arwain at sylwadau cadarnhaol, ac yn fodd i ysgolion ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain o ddylunio'r cwricwlwm, gan weld enghreifftiau diriaethol.
- Defnyddio sgiliau digidol gwell i sefydlu isadeiledd fel bod modd cyfathrebu'n fwy hwylus ar draws y 49 grŵp lleol a rhanbarthol.

AMCAN 2- DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

Gwella'r dysgu ac addysgu yn ein hysgolion

IEITHOEDD TRAMOR MODERN (ITM)

Cefnogi ysgolion cynradd i gynllunio eu darpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol (IRh)

Mae'r Ysgolion Arweiniol ac YCG GwE yn darparu cymorth uniongyrchol yn gyson i'w clystyrau ac maent ar gael i gefnogi unrhyw ysgol sy'n gofyn am gymorth ychwanegol. Bellach, mae rhai clystyrau yn ychwanegu Ieithoedd Rhyngwladol at yr agenda ac wedi holi am gael rhagor o gymorth. Mae gwahanol arferion yn cael eu hystyried a'u datblygu i weddu i gyd-destun y clwstwr. Mae ysgolion unigol wedi defnyddio'r cynnig o gymorth ac mae trafodaethau buddiol wrthi'n digwydd. Teimla staff fod cymorth iddynt a'u bod yn datblygu dealltwriaeth ddofnach o'r Ieithoedd Rhyngwladol yn eu cwricwlwm. Mae'r dull gweithredu a'r negeseuon yn gyson ac yn unol â rhaglen gymorth GwE ar gyfer cyflwyno. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr ysgolion sy'n ymwneud ag Ieithoedd Rhyngwladol dros y flwyddyn: Mae 163 o ysgolion (+153%) wedi mynegi diddordeb neu wedi cymryd rhan yn y Cynnig Dyfodol Byd-eang.

Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol

Trefnwyd sesiynau galw heibio ac mae'r athrawon sydd wedi bod yn bresennol yn gwerthfawrogi'r trafodaethau anffurfiol ac yn gweld bod yr wybodaeth yn fuddiol iawn. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi mynd i'r afael â Dyfodol Byd-eang o ganlyniad. Cafodd 80 ysgol gyllid ar gyfer cyfleoedd hyfforddiant neu adnoddau eleni. (Power Language, Y Brifysgol Agored.) Mae pob ysgol wedi cael y 5 sesiwn hyfforddiant i ysgolion cynradd naill ai drwy fynd i'r sesiynau byw neu drwy ddefnyddio'r recordiadau. Hyd yma, mae 69 ysgol wedi gwneud cais am y tanysgrifiad newydd am ddwy flynedd i adnoddau Power Language. Mae 2 ysgol wedi manteisio ar daith Awdur o'r Almaen (a fydd yn digwydd mis Mai 2022). Hyrwyddwyd sesiynau Trafod Addysgeg ILlCh IRh a bydd ysgol arweiniol GwE yn arwain y drydedd sesiwn ym mis Ebrill.

Datblygu canolfan cefnogaeth GwE ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol yn y cynradd ac ar gyfer ITM/IRh yn yr uwchradd

Canolfan Cefnogaeth GwE yw'r lle cyntaf y mae athrawon Gogledd Cymru yn mynd bellach ac aethpwyd ati i greu a diweddaru adrannau ITM Ieithoedd Rhyngwladol ers mis Gorffennaf 2021 (cynradd ac uwchradd). Gall pob athro fynd at y wefan i gael yr adnoddau cyfoes a pherthnasol, y deunyddiau hyfforddiant, y dolenni a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnynt i godi hyder, arbenigedd a chefnogi eu taith at 2022 a thu hwnt. Mae ysgolion yn ei defnyddio mwyfwy.

Darparu cymorth uniongyrchol i athrawon cynradd drwy raglen Athrawon yn dysgu i Addysgu Ieithoedd (TELT) y Brifysgol Agored.

Cofrestrodd 9 o athrawon ar gwrs TELT y Brifysgol Agored ar gyfer 2021-2022 (7 rhan 1, 2 rhan 2). Ers 2018 ac erbyn mis Mehefin 22, bydd 31 o athrawon ar draws y rhanbarth wedi cwblhau'r cwrs hyfforddiant blwyddyn i ddysgu ac addysgu IRh yn y cynradd. Bydd wyth o'r rheiny wedi cwblhau'r ail flwyddyn hefyd. Mae'r cwrs hwn wedi galluogi'r athrawon hyn i:

- ddatblygu eu harbenigedd a'u hyder yn yr iaith ryngwladol ac wrth gyflwyno IRh yn y cynradd.

- rhannu egwyddorion addysgegol a methodoleg efo cydweithwyr
- dechrau datblygu'r ddarpariaeth IRh yn eu hysgolion ac arbrofi efo cynllunio a dylunio'r cwricwlwm
- datblygu annibyniaeth ysgolion cynradd i gynllunio a chyflwyno IRh.

Cyfarfodydd Rhwydwaith Pynciol: (uwchradd)
Mae trafodaethau a gwaith rheolaidd ynghylch cynhyrchu strategaeth Dysgu ac Addysgu GwE wedi digwydd. Mae gwaith cydweithredol Grwpiau Rhanbarthol a Lleol GwE wedi galluogi dealltwriaeth ddofnach o fframwaith GwE ac wedi bod yn fodd i fireinio'r cymorth i ysgolion. Drwy fod yn rhan o grŵp CDP Pynciol GwE,

Rhaglen Dylunio Cwricwlwm Draws-ranbarthol dros 12 diwrnod efo Lucy Crehan (Rhag 21 - Mawrth 22): mae'r sgyrsiau a'r deunyddiau a gynhyrchwyd yn y gweithdai hyn wedi bod yn fodd i fireinio a chefnogi datblygiadau'r rhaglenni rhanbarthol a lleol, ac fel arall. Cynigir negeseuon cyson, arweiniad a chymorth sy'n gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu ar bob lefel.

Darperir arweiniad a chymorth cyson a chydlynol i ysgolion. Gyda'r rhaglen dysgu proffesiynol dros 6 sesiwn i gefnogi'r symud tuag at Cwricwlwm i Gymru, daeth y cyfle i holl athrawon y rhanbarth (cynradd ac uwchradd) ddatblygu eu dealltwriaeth o'r continwwm ieithoedd a'r egwyddorion a'r cynllunio ar gyfer IRh yn y CiG.

Oherwydd y pwysau a'r cyfyngiadau ar ysgolion eto eleni, trefnwyd pob sesiwn ar ôl ysgol felly nid oeddent wastad yn addas i athrawon. Er hynny, recordiwyd a rhannwyd pob sesiwn DP â phob ysgol er mwyn iddynt allu mynd at y DP.

Parheir i drafod, rhannu arferion da, a chymryd camau datblygol i baratoi ar gyfer CiG.

Prosiect LlC: Creu ar draws Ieithoedd
Mae'r ddwy ysgol sy'n treialu ac yn datblygu'r prosiect/uned bellach wedi creu a chyflwyno eu huned waith. Gwneir cynnydd yn unol â'r amserlen a'r cynllun gweithredu. Mae'r prosiect hwn wedi gwella dealltwriaeth a hyder ymarferwyr wrth gynllunio ar gyfer CiG. Mae hyn yn rhoi enghraifft o ddylunio cwricwlwm, fframwaith cynllunio ac adnoddau ar gyfer uned ymarferol i'w defnyddio o fewn ILlCh.

Prosiect: Cystadleuaeth Farddoniaeth 'Translation Exchange' Rhydychen
Ychwanegwyd adnoddau Cymraeg GwE at wefan Cystadleuaeth TE Coleg y Frenhines, Rhydychen ac fe'u dosberthir i ysgolion sy'n gofyn amdanynt yng Nghymru. Mae llinyn Cymraeg y gystadleuaeth wedi codi nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan. (Cystadleuaeth gyfieithu drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel y DU bellach yn bosibl ac adnoddau dwyieithog ar gyfer Ffrangeg CA3).

- 18 ysgol yn GwE yn cymryd rhan yn 2021-2022 (+160%)
- 36 ar draws Cymru. (+ 200%)

Mae hyn hefyd wedi codi proffil y Gymraeg ar lefel y DU.
Mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan wedi cyflwyno profiad newydd cyffrous a chyfoethogol i daith ddysgu eu myfyrwyr.

Darparu cymorth uniongyrchol i ysgolion uwchradd drwy brosiect mentora Prifysgol Caerdydd ar gyfer 2021-22
Roedd 18 ysgol yn GwE yn cymryd rhan yn y cynlluniau yn 2021-2022 (18 tymor cyntaf, 12 tymor 2). Ar y cyfan, mae'r sylwadau gan ysgolion yn galonogol iawn ond mae rhai problemau ymarferol oherwydd Covid a chyflwyno'n rhithiol weithiau wedi llesteirio'r effaith. Cynhyrchwyd adroddiad i bob ysgol yn y Consortiwm sy'n ceisio rhoi data ysgolion unigol mewn cyd-destun ochr yn ochr ag ymatebion ar draws Cymru i ddeall yr heriau sy'n wynebu IRh. Rhoddodd hyn wybodaeth werthfawr o ran agweddau dysgwyr a'u bwriadau o ran dysgu iaith. Gallai hyn lywio strategaethau posibl i roi sylw i ffactorau sy'n effeithio ar niferoedd yn CA4.

Arweinwyr Hwb a chyfarfodydd rhwydwaith (Uwchradd)
Llais athrawon oedd yn llywio'r galw am gyfarfodydd rhwydwaith, eu hamlder a'u natur. O ganlyniad, lluniwyd y rhaglen ddysgu a'r cynnig cymorth i anghenion athrawon. Recordiwyd pob sesiwn hyfforddiant i leddfu'r pwysau trwm ac amryfal ar ysgolion ac athrawon, y problemau efo rhyddhau a'r amserlen, a rhoi mwy o hyblygrwydd i

athrawon a mynediad at yr holl DP. Drwy gyfrwng y rhaglen DP efo'r siaradwyr gwadd Gillian Campbell-Thow a Rachel Hawkes, roedd athrawon yn gallu datblygu a rhannu syniadau i gefnogi eu paratoadau at gyflwyno'r CiG. Rhannwyd pob recordiad hefyd ag Arweinwyr Consortia eraill a'r Bartneriaeth i rannu efo'u hysgolion. Mae'r holl negeseuon yn unol ag arweiniad a gwaith a ddatblygwyd drwy grwpiau rhanbarthol GwE.

Mae archwiliadau yn nhymor yr Haf a'r Hydref wedi bod yn fodd i weld y sefyllfa o ran niferoedd yn CA4. Wrth drafod a chymharu â thueddiadau cenedlaethol, gwelir darlun tebyg i'r hyn sydd yng ngweddill y wlad.

Mae IRh yn dal yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rhennir strategaethau ac adnoddau i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo ieithoedd yn ysgolion GwE yn rheolaidd. Crëwyd Teams Uwchradd ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol ar gyfer y rhwydwaith cyfan i'w ddefnyddio gan ymarferwyr ITM GwE fel fforwm i drafod, rhannu adnoddau a syniadau am y gwahanol agweddau ar ddysgu ac addysgu ieithoedd mewn ysgol. Mae'r fforwm wedi helpu i gyfathrebu'n gyflymach efo rhai athrawon.

Cymorth/rhwydwaith ANG
Cyfarfodydd rhwydwaith ANG rheolaidd i ITM - trefnwyd 3 cyfarfod ANG gyda niferoedd da ynddynt. Datblygodd 7 o athrawon hyder a hyfedredd yn eu harferion. Mae athrawon wedi elwa o'r rhwydwaith i rannu syniadau a chefnogi'r naill a'r llall.

Cefnogi cyfarfodydd Cynghrair a chlwstwr/datblygu adnoddau
Bu arweinwyr Hwb ac athrawon GwE yn cydweithio i greu 18 tiwtorial i gefnogi gwaith adolygu CA4 i bob ysgol yn y rhanbarth mewn Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg. Mae gan bob ysgol yn y rhanbarth fynediad atynt ac yn gallu eu defnyddio fel adnoddau dysgu cyfunol. Mae hyn hefyd wedi darparu adnoddau ar gyfer cymorth ysgol i ysgol.

Gwaith i leihau ymyleiddio ieithoedd
Rhoddir sylw i IRh yn rheolaidd mewn trafodaethau cefnogol ac mae ceisiadau gan Benaethiaid am gymorth yn codi. Trafodir y ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd mewn ysgolion ac ystyrir ei bod yn cyd-fynd â gweledigaeth CiG. O ganlyniad, mae'r Consortiwm wedi helpu i ddatblygu ac wedi bod yn rhan o sesiynau rheolaidd am IRh drwy Teams Trafod Addysgeg. O ganlyniad, mae hyn yn codi proffil a phresenoldeb IRh yn y cwricwlwm ac yn rhoi modd i ymarferwyr ddatblygu eu harferion a chymryd rhan mewn sgyrsiau proffesiynol buddiol.

Gweithio gyda Cymwysterau Cymru i ddatblygu gwahanol fathau o arholiad/achrediad.
Drwy gymryd rhan yn y Gweithgor Lefel Pynciol (SLWG) ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol (Tach21-Meh22)
bu modd cydweithio i lywio cynigion ar gyfer y cynnwys lefel uchel ac asesu cymwysterau o fewn y maes pynciol (isafswm gofynion cymhwyster).

- 5 allbwn yn cael eu datblygu ar gyfer ymgynghori.
- Myfyrio ar y ddarpariaeth bresennol
- Cynigion ar gyfer pwrpas, nodau ac amcanion cymwysterau
- Cynigion ar gynnwys
- Cynigion ar Asesu
- Effaith a rheoli newid

Cydweithio ar draws consortia
Drwy gydweithio a gweithio'n rheolaidd ac yn effeithiol gydag Arweinwyr eraill, bu modd rhannu a chynnig DP mwy effeithiol a chadarn (rhannwyd gweminarau/recordiadau). Datblygwyd gwaith gydag Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a Trafod Addysgeg ac o ganlyniad, mae'r negeseuon yn gyson a'r rhwydwaith yn ehangach.

CALU - LlDCD

<u>Cefnogi datblygiad proffesiynol cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi</u>
Darparwyd yr hyfforddiant hwn eleni yn gyfan gwbl ar ffurf rhestr chwarae cenedlaethol ar sail 4 Modiwl drwy Hwb. Cofrestrwyd 77 cymhorthydd ar yr hyfforddiant Ymsefydlu yn ystod y flwyddyn 2021-22. Mae 47 cymhorthydd wedi cwblhau'r pedwar modiwl hyd yn hyn. Drwy'r rhaglen hon gwelwyd cynnydd mewn sgiliau digidol cymorthyddion a'u defnydd o'u cyfrif Hwb gan ei bod yn raglen drwy restr chwarae digidol dros 4 modiwl.

Cefnogi datblygiad proffesiynol cymorthyddion addysgu wrth eu gwaith

Bu i'r rhaglen hyfforddiant yma gael ei rhewi o Fawrth 2020 hyd at ddiwedd yr Haf 2021 oherwydd pandemig Covid. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'n Grŵp LlDGA Cenedlaethol ar y ffordd ymlaen gan addasu'r rhaglen hon ar gyfer ei chyflwyno yn rhithiol yn y lle cyntaf, gan gyflwyno'r rhaglen yn ddigidol. Bu i ni ail ddechrau'r rhaglen datblygiad proffesiynol ar gyfer cymorthyddion addysgu profiadol y rhanbarth yn ystod tymor yr Hydref 2021 a thros dymor yr hydref 2021 a thymor y Gwanwyn 2022 bu i 23 cymhorthydd addysgu gymryd ran yn y rhaglen. Trwy ddilyn y rhaglen hon bu i'r cymorthyddion addysgu ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Cynorthwyo Addysgu. Wrth i gyfyngiadau Covid lacio, sicrhawyd pedair canolfan hyfforddi clwstwr newydd er mwyn darparu'r hyfforddiant ar lefel lleol (wyneb yn wyneb, digidol a chyfuniad) gyda chyfanswm o 62 cymhorthydd. Fel canlyniad i'r rhaglenni hyn, gwelwyd cynnydd pellach yn niferoedd ymgeiswyr o safon uchel sy'n gwneud cais am fynychu hyfforddiant Darpar CALU.

Cefnogi datblygiad proffesiynol cymorthyddion addysgu profiadol drwy weithredu'r rhaglen Darpar CALU

Cynhelir y rhaglenni Darpar CALU cyfrwng Cymraeg ar-lein yn genedlaethol gyda'r consortia eraill oherwydd niferoedd cymharol fychan, tra cynhelir yr hyfforddiant cyfrwng Saesneg ar y cyd gyda chonsortiwm Partneriaeth. Yn ystod y flwyddyn darparwyd cyfleoedd addysgu proffesiynol ar gyfer darpar CALU drwy Gylch 2, 3 a 4. Darparwyd hyfforddiant ar gyfer 52 cymhorthydd ar y rhaglen Darpar CALU Cylch 2, gyda 50 ohonynt wedi cwblhau y rhaglen hyfforddi gyflawn, sef 8 sesiwn ddigidol.

Dechreuodd Darpar CALU Cylch 3 ym mis Medi 2021. Cafwyd 50 cais gan dderbyn 47 ohonynt. Cynhaliwyd sesiwn dechnegol cyn cychwyn y rhaglen, er mwyn sicrhau fod y cymorthyddion yn gyfforddus wrth ddefnyddio TEAMS. Bydd y rhaglen yn gorffen ddechrau Ebrill 2022, a bydd asesiadau statws CALU Cylch 3 yn cael eu cynnal rhwng Mai 23 a Mehefin 17, 2022.

Mae 33 cymhorthydd wrthi'n cwblhau Darpar CALU Cylch 4 gyda'r rhaglen yn rhedeg rhwng Ionawr a Mehefin 2022. Roedd safon y ceisiadau yn uwch yn gyffredinol, ac roedd ansawdd a gwell dyfnder yn eu myfyrdodau ynghylch pam mai statws CALU yw eu cam nesaf.

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan gymorthyddion, hwyluswyr ac aseswyr yn nodi llawer gwell dealltwriaeth gan gymorthyddion o'r Safonau Proffesiynol a sut i'w defnyddio yn eu rôl o ddydd i ddydd. Mae ganddynt hefyd well dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru yn dilyn yr hyfforddiant. Gwelwyd bod eu mewnbwn i drafodaethau yn broffesiynol ac yn frwdfrydig o ran datblygu CiG yn eu hysgolion. Gwelwyd hefyd bod cymorthyddion wedi gwerthfawrogi cael cyd-weithio gyda chymorthyddion eraill ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol a bod eu sgiliau digidol wedi datblygu gyda'r sesiwn dechnegol wedi bod o gymorth mawr gyda hyn. Mae amryw o'r cymorthyddion wedi mynychu rhaglenni blaenorol o'r Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Addysgu e.e. Ymsefydlu a Chymorthyddion wrth eu Gwaith.

Cefnogi cymorthyddion addysgu profiadol drwy'r broses o dderbyn asesiad a statws CALU

Yn dilyn mynychu hyfforddiant Darpar CALU Cylch 2, bu i 67% o'r mynychwyr wneud cais am asesiad statws CALU. Dyfarnwyd fod 29/30 cymhorthydd wedi bodloni'r gofynion. Effeithiwyd ar allu 33% ohonynt i fynd ymlaen am asesiad oherwydd naill ai nad oedd modd iddynt gael digon o brofiad addysgu dosbarth, oherwydd effaith Covid ar ysgolion, effaith salwch neu oherwydd na fu iddynt lwyddo i ennill cymhwyster Llythrennedd/Rhifedd lefel 2 mewn pryd. Bydd y rhain yn derbyn asesiad gyda chymorthyddion Cylch 3 neu 4.

Cynhaliwyd sesiynau diweddaru gorfodol ar gyfer aseswyr cyn pob cylch asesu er mwyn sicrhau cysondeb yn y drefn ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol. Hyfforddwyd 18 o aseswyr newydd yn ystod y flwyddyn, sy'n rhoi cyfanswm o 35 aseswr - 30 aseswr Cynradd, 0 Uwchradd a 5 Aseswr ar gyfer y sector Arbennig. Cynhaliwyd sesiynau cymedroli rhanbarthol a chenedlaethol. Trwy'r rhain fe sicrhawyd ansawdd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan ymgeiswyr, ynghyd a'r prosesau asesu a ddilynwyd gan yr aseswyr.

Darpariaeth ychwanegol

Crëwyd hyfforddiant cenedlaethol Cwricwlwm i Gymru ar gyfer cymorthyddion yn dilyn cais gan y grŵp Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod tymor yr haf 2022. Erbyn Mawrth 2022 roedd 1884 aelod o'r Dosbarth Google ar gyfer Cymorthyddion. Caiff adnoddau a gwybodaeth eu diweddaru'n rheolaidd. Cynhaliwyd sesiwn Dathlu Llwyddiant CALU Cylch 2 yn genedlaethol (20 yn mynychu o GwE), a sesiwn Datblygu CALU rhanbarthol (59 yn mynychu o GwE).

Parhau i ddatblygu tîm hyfforddi'r LlDCA

Cynhaliwyd 2 gyfle ar gyfer datblygu a diweddaru hyfforddwyr presennol. Hefyd llwyddwyd i recriwtio a hyfforddi 2 hyfforddwr newydd cyfrwng Cymraeg i hwyluso'r Llwybr uchod. Mae uwch-sgilio y tîm hyfforddi hyn wedi sicrhau ddarpariaeth o ansawdd a gaiff ei gyflwyno mewn dull cyson ar draws y rhanbarth.

Y Gymraeg

Gwaith clwstwr

- **Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg**
- **Datblygu sgiliau iaith y gweithlu**

Mae cyllid ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn anffurfiol a datblygu sgiliau iaith Cymraeg y gweithlu yn cael ei ddarparu yn flynyddol, ers 3 mlynedd, yn uniongyrchol i'r clystyrau er mwyn cefnogi ysgolion i gynnal gweithgareddau sy'n rhan o'r Siarter Iaith ac er mwyn gallu cefnogi unrhyw staff i ddatblygu ei sgiliau ieithyddol personol ar y lefel briodol.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd, adeiladol gyda swyddogion awdurdodau lleol er mwyn cyd-weithio ar y gefnogaeth i ysgolion. O ganlyniad, mae cytundeb ar yr egwyddorion ar gyfer rhaglen waith y cydlynwyr clwstwr er mwyn cynllunio ar gyfer cyllid grant y Gymraeg. Mae hyn wedi arwain yn llwyddiannus at gysondeb gweithredu ar draws y gogledd.

Mae'r cydlynwyr yn cynllunio yn bwrpasol ac yn diweddaru taenlen 'dangosfwrdd' ar gyfer cyllid y Gymraeg mewn ymgynghoriad â Swyddogion yr Awdurdodau er mwyn coladu'r wybodaeth cynllunio, costau ac adrodd ar gynnydd. O ganlyniad i'r cyd-weithio agos, mae'r broses yn mynd rhagddo yn hwylus a phwrpasol gyda chyllid wedi'i ddyrannu i'r 54 clwstwr yn 2021-22. Mae'r cydlynwyr yn adrodd ar gynnydd ac effaith y gwaith mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ac yn ffurfiol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol er mwyn gallu enghreifftio arferion da ac adnabod camau datblygu nesaf.

Siarter Iaith

Mewn ambell glwstwr, mae'r hyn gynlluniwyd wedi cael ei addasu yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i heriau staffio neu oherwydd nad oedd modd gweithredu yn ôl yr hyn fwriadwyd. Fodd bynnag, mae enghreifftiau gwerth chweil lle mae dysgwyr wedi cael profiadau cyffrous o fod yn cynllunio a pharatoi ar gyfer datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg e.e. cydweithio efo llu o artistiaid wrth wneud amrywiol weithgareddau fel cyfansoddi anthemau ysgol a chreu hen alawon newydd, gemau iaith, creu podlediadau er mwyn dathlu'r ardal leol. O ganlyniad, mae wedi arwain at ddyfnhau'r ymdeimlad o falchder yn yr hunaniaeth Gymreig ac ysgogi defnydd o'r iaith llafar. Mae yna enghreifftiau yn ogystal o gyd-weithio llwyddiannus rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd gydag adran Cymraeg yr ysgol uwchradd yn gosod heriau cerddorol i ysgolion cynradd y clwstwr. Mae'r cydlynwyr yn y broses o ddiweddaru'r wybodaeth am gynnydd ac effaith ar eu 'dangosfwrdd' clwstwr gan ystyried y camau nesaf ar gyfer cynllunio ar gyfer cyllid 2022-23.

Datblygu sgiliau iaith y gweithlu

Derbyniwyd data gan y Ganolfan Iaith Genedlaethol o ran hyfforddiant ar-lein Croeso: Ymarferwyr mewn Addysg (Rhan 1 a Rhan 2 tua 5 awr yr un). Mae 94 wedi cofrestru; 52 wedi cwblhau Rhan 1 (uned 1 – 5); a 43 wedi cwblhau Rhan 2 (uned 6 – 10).

- Cynlluniau Sabothol – mae cwrs Cymraeg mewn blwyddyn yn cael ei gynnig mewn 2 ran yn y Gogledd eleni.
- 12 wedi cwblhau Rhan 1 (Medi – Rhagfyr)
- 9 wedi parhau i Rhan 2 (Ionawr – Ebrill) ac 8 ychwanegol wedi ymuno efo nhw.
- 5 ar y rhestr aros ar gyfer Rhan 2.

I grynhoi:

- 12 ar y cwrs Sylfaen (rhan 1)
- 17 ar y cwrs Canolradd (rhan 2)
- 20 unigolyn yn cael mynediad i'r cyrsiau efo 5 wrth gefn

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, mae'r Cwrs mewn Blwyddyn wedi cael ei gynnig i'r ysgolion ar gyfer y flwyddyn addysgol nesaf. Mae cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal gyda Canolfan Bedwyr a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg (Prifysgol Bangor) er mwyn hyrwyddo cyrsiau sydd eisoes ar waith ac i gyd-weithio ar ddatblygu cyrsiau penodol i Awdurdodau neu i ymarferwyr addysg e.e. cwrs i gymorthyddion dysgu. Mae'r angen i dargedu'r sector

uwchradd yn cael ei drafod ymhellach gan fod bwlch yn y ddarpariaeth honno.

Cefnogaeth i staff GwE

Mae 8 aelod o'r tîm wedi bod yn ymgymryd â'r hyfforddiant dysgu Cymraeg gan wneud Uned 5 o'r cwrs Canolradd, ac yn ymarfer at yr arholiad. Mae 4 wedi ymrwymo â'r Cynllun Siarad trwy'r Ganolfan Genedlaethol sef sesiynau i gael cyfle i sgwrsio gyda partneriaid o fewn GwE yn Gymraeg am awr yr wythnos, fel arfer am oddeutu 10 sesiwn. Mae cais newydd ei gyflwyno 'Cymraeg Gwaith' am fynediad i hyfforddiant pellach drwy'r cynllun.

Ein Llais Ni

Prosiect cyd-weithredol (wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru) yn datblygu arferion a strategaethau dysgu ac addysgu llafaredd rhwng ysgolion GwE, Prifysgol Bangor a phartneriaid eraill. Bwriad y prosiect yw:

- Canolbwyntio ar ddatblygu llafaredd Cymraeg dysgwyr mewn cyd-destun cyfoes sy'n berthnasol i Gymru
- Plethu strategaethau addysgu llafaredd traddodiadol gyda strategaethau digidol
- Rhoi'r pwyslais ar gynnig profiadau 'byw' sy'n berthnasol i fywyd go-iawn
- Datblygu addysgeg sy'n plethu'n naturiol i egwyddorion cynllunio a gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru
- Datblygu athrawon fel ymchwilwyr gweithredol - myfyrio ar ymchwil gyfoes, modelu'r strategaethau ar waith ac arfarnu llwyddiant
- Athrawon yn rhannu astudiaethau achos o'r hyn sydd wedi ei gweithio'n dda
- Cynhyrchu gwerthusiad o'r prosiect a chyfeirlyfr i athrawon gan ymchwilwyr o Brifysgol Bangor
- Datblygu pecyn cefnogol ar gyfer dysgu proffesiynol

Mae'r Bwrdd Rheoli yn cynnwys cynrychiolaeth o UDA GwE, Tîm Prosiect Ein Llais Ni, Pennaeth o'r sector cynradd ac uwchradd, Prifysgol Bangor, yr Academi Arweinyddiaeth, Awdurdodau Lleol a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac mae'n cyfarfod yn chwarterol er mwyn gosod cyfeiriad strategol i gefnogi'r prosiect a sicrhau gweithrediad effeithiol o flaenoriaethau'r prosiect. O ran y broses, gofynnwyd i ysgolion wneud cais i gael eu derbyn ar y prosiect, cwblhau holiadur o fan ffocws eu ymholiad, mynychu'r gynhadledd er mwyn derbyn cefndir i'r gwaith, mynychu rhwydweithiau a sesiynau i ddatblygu eu gwybodaeth a rhannu arferion, rhannu holiadur gyda'u dysgwyr ac ymchwilio a threialu'r strategaethau yn eu ddosbarth. Er mwyn sicrhau ymrwymiad, eglurder o ran cyfeiriad y gwaith a chefnogaeth rydym wedi cynnig cyswllt cyson gydol y prosiect ac mae ysgolion wedi ymateb yn llwyddiannus i hynny ac yn trafod eu gwaith gyda brwdfrydedd. Rhoddwyd cyfle i bob ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog y Rhanbarth fod yn rhan o'r Prosiect, a cafodd y 100 o ysgolion a ymgeisiodd eu derbyn.

Ymrwymiad i'r sesiynau:

Rhanbarthol	Pryd?	Unigolion	Ysgolion	Canran ysgolion
Cynhadledd	Medi	22	16	76%
Ar Alw 1	Tachwedd	9	5	
Rhwydwaith 1	Tachwedd	15	11	85%
Ar Alw 2	Rhagfyr	2	2	
Rhwydwaith 2	Chwefror	16	11	85%
Ar Alw 3	Mawrth	4	4	
Gweithdy Digidol 1	Mawrth	15	11	
Gweithdy Digidol 2	Mawrth	11	9	
Rhwydwaith 3	Mawrth	11	9	69%

Mae amgylchiadau heriol iawn o ran staffio wedi golygu nad ydy pob ysgol wedi gallu ymrwymo fel yr oeddent wedi fwriadu am eleni, ond bwriad y Tîm Prosiect ydy i'w cynnwys yn ngwedd 2 y gwaith pan ddaw'r prosiect yn ei ffurf presennol i ben.

Mae'r athrawon sydd wedi ymrwymo i'r prosiect yn datblygu yn effeithiol fel athrawon sy'n ymchwilwyr gweithredol ac yn dechrau rhannu eu canfyddiadau hyd yma. Maent oll yn gweithio tuag at cyflwyno astudiaeth achos erbyn diwedd tymor yr Haf 2022 yn manylu ar lwyddiant strategaethau i hyrwyddo a hybu sgiliau llafar trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgolion sy'n rhan o'r rhwydwaith wedi cael cyfleoedd i rannu eu profiadau a'r adborth yn gadarnhaol o ran effaith cynnar treialu'r strategaethau yn eu dosbarthiadau. Maent wedi gwerthfawrogi clywed gan ysgolion eraill gan gynnwys derbyn syniadau a'u haddasu i'w dosbarthiadau hwy.

Mae anogaeth cyson drwy'r prosiect i athrawon rannu unrhyw adnoddau neu wybodaeth sydd wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn cefnogi aelodau eraill y prosiect ac o ganlyniad, amlygwyd fod un athrawes o ysgol gynradd ym Môn â chefndir yn y maes o ddatblygu llafaredd ac mae bellach wedi cyflwyno sesiwn yn y rhwydwaith ddiweddaraf ar strategaethau i datblygu sgiliau gwrando a chefnogi plant mewnblyg neu sydd ag anhwylderau iaith neu ADY.

Mae GwE a Phrifysgol Bangor wedi cyd-weithio yn datblygu adnoddau cefnogol cynhwysfawr iawn i'r athrawon er mwyn eu cynorthwyo gyda'r ymchwil. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwefan Ein Llais Ni – holl gyflwyniadau o'r gynhadledd lansio gychwynnol, papurau a dogfennau ymchwil, enghreifftiau o arfer lwyddiannus, awgrymiadau ar gyfer addysgu a dysgu, mynediad i Drysorfa Llais 21 (CCD), astudiaethau achos, enghreifftiau o raglenni ac apiau digidol ar gyfer hybu gwaith llafar ayyb
- Podleisiau – cyfres o sgyrsiau yn ymwneud â llafaredd a dwyieithrwydd
- Newyddlenni – rhannu diweddariadau er gyda'r ysgolion ar unrhyw ddatblygiadau gan gynnwys ymateb i gwestiynau ac enghreifftiau gan ysgolion
- Gweminarau – cyfres o sesiynau sy'n hybu'r defnydd o arfau digidol i gefnogi a chyfoethogi gwaith llafar
- Rhwydweithiau – cyfle i rannu gwybodaeth a phrofiadau gydol y flwyddyn
- Sesiynau Ar Alw – cyfnod anffurfiol i unrhyw ysgol sy'n rhan o'r prosiect i'w fynychu er mwyn trafod eu gwaith a derbyn diweddariadau
- Ymchwil – mewnbwn gan ymchwilwyr profiadol i'r ymchwil cysylltiedig ac unrhyw argymhellion defnyddiol i gefnogi dewisiadau'r athrawon wrth gynllunio ar gyfer y gwaith.

O'r cyswllt uniongyrchol gydag athrawon sy'n rhan o'r prosiect naill ai mewn galwadau ffôn/Teams ymgysylltiol, mewn cyfarfodydd ar alw neu ystafelloedd trafod yn y rhwydweithiau, nodwyd fod bod yn rhan o'r prosiect wedi caniatáu ffocws benodol a llwyddiannus ar ddatblygu sgiliau siarad a gwrando Cymraeg, sydd wedi gweld dirywiad yn dilyn y cyfnodau clo, a bod cynllunio'n fwriadus ar gyfer cynnydd yn y sgiliau hynny'n dechrau dwyn ffrwyth yn enwedig o ran brwdfrydedd a hyder tuag at ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r prosiect hefyd wedi codi hyder yr athrawon i fod yn datblygu dulliau digidol, mwy cyfoes i ddatblygu sgiliau llafar sy'n cyplysu yn effeithiol gyda'r broses asesu ffurfiannol, yn enwedig yr agwedd o fyfyrio ar waith a gwella ansawdd y siarad. O ganlyniad, mae'r dysgwyr yn dangos brwdfrydedd tuag at gwblhau eu tasgau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyswllt cryf rhwng y prosiect a pharatoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac mae'r agwedd Gymreig, lle mae anogaeth i ysgolion gynnig profiadau 'byw' yn rhoi pwrpas a chyd-destun lle mae'r dysgwyr yn gweld yr iaith y tu hwnt i furiau'r dosbarth ac yn weithredol yn eu cymuned. Mae'r gweminarau digidol wedi arfogi'r athrawon yn effeithiol gyda syniadau ar gyfer cynllunio i gyfoethogi'r gwaith llafar gan ddefnyddio rhaglenni neu apiau perthnasol ac wedi cynnig awgrymiadau a syniadau ar gyfer gwella ansawdd y siarad a'r gwrando.

Datblygu Partneriaethau

Mae cyfarfodydd cynllunio wedi eu cynnal gyda'r Awdurdodau sydd wedi arwain at rymuso'r cyd-weithio a rhannu adnoddau ymhellach gan amlygu'r anghenion ar draws yr awdurdodau. Yn ogystal, mae'r cydweithio wedi bod yn effeithiol o ran rhannu gwybodaeth a dulliau gweithredu ar draws awdurdodau er mwyn lleihau baich cynllunio. Mae amserlen yn ei le ar gyfer cyfarfodydd y flwyddyn ac mae hyn wedi arwain at sicrhau fod llif yr wybodaeth yn gyson ac fod dealltwriaeth gytûn o'r hyn sy'n digwydd yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae YCG cyswllt y Gymraeg yn parhau i fynychu fforymau lleol e.e. CSGA, Fforymau Iaith, cyfarfod swyddogion i wyntyllu anghenion lleol.

Mae partneriaeth gryf iawn gyda Phrifysgol Bangor wrth baratoi a chynllunio ar gyfer 'Ein Llais Ni' sydd wedi arwain yn effeithiol at gynllunio cynhadledd amrywiol a phwrpasol yn seiliedig ar ymchwil.

Mae'r cyfarfodydd misol rhwng y rhanbarthau a Llywodraeth Cymru yn gyfle i wyntyllu unrhyw ddatblygiadau ac anghenion penodol cyffredin.

LEFEL A

Sicrhau bod gan pob Arweinydd Chweched Dosbarth fynediad at hyfforddiant arweinyddiaeth priodol a grymus i'w harfogi â'r sgiliau i arwain eu Chweched Dosbarth i lefelau uwch o lwyddiant.

Llwyddwyd i symud y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16 Genedlaethol i fformat ar-lein. Roedd y nifer a gofrestrodd yn genedlaethol yn uchel (gan gynnwys 10 o ranbarth GwE). Bu'r sylwadau gan yr aelodau ar ddiwedd

y rhaglen yn galonogol iawn. Ni fu cynhadledd arweinyddiaeth oherwydd cyfyngiadau Covid a'r heriau sy'n wynebu ysgolion.

Cefnogi gwaith monitro cynnydd yn Safon Uwch/BTEC/THS drwy ddefnyddio ALPs yn rhanbarthol.
Defnyddiwyd ALPS gan rai ysgolion. Er hynny, yn sgil arholiadau yn 2021, prin iawn y defnyddiwyd yr adnodd hwn.

Parhau i ddatblygu arfer dda wrth ddatblygu dysgu annibynnol, i gefnogi datblygiad y sgiliau hyn yn y Flwyddyn 12 nesaf yn benodol yn sgil y tarfu ar eu dysgu.
Cynhaliwyd tair sesiwn VESPA yn nhymor yr Hydref yn rhanbarthol. Rhannwyd a dosbarthwyd holl adnodau dysgu o bell CBAC ar gyfer Safon Uwch â phob ysgol yn y rhanbarth. Mae'r adborth yn gadarnhaol.

Ehangu rhaglen addysgu rithiol e-ysgol ar draws pob ysgol yn y rhanbarth.
Parhau i gefnogi'r chwe ysgol beilot e-sgol ac ehangu eu cwricwlwm ym mlwyddyn 12:
Trefnwyd amserlen a phynciau newydd efo'r chwe ysgol ac mae'r darparwr allanol, Mudiad Meithrin, yn darparu'r cwrs Cam wrth Gam hefyd.

Trefnu a gweithio gyda'r Bwrdd Strategol Rhanbarthol a'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol i weithredu, a fydd yn codi yn sgil cyfarfod â chyfarwyddwyr ALl y chwe awdurdod i dynnu themâu cyffredin.
Cynhaliwyd cyfarfodydd ar draws y chwe awdurdod. Cyfarfu'r bwrdd strategol eto a datblygir hyn ymhellach tymor nesaf. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhanbarthol i ddatblygu gwaith gyda'r bwrdd gweithredol rhanbarthol yn ogystal â phrosiectau peilot posibl eraill.

Parhau i ddatblygu rhwydweithio ar draws fforymau rhanbarthol ar lefel Penaethiaid Chweched Dosbarth, a hynny yn yr wyth pwnc mwyaf poblogaidd
Adnabod ysgolion sydd â dysgwyr sy'n perfformio'n gryf a dysgwyr sy'n cyflawni'n dda, a rhannu arferion da ar sail ysgol-i-ysgol
Cynhaliwyd fforymau i arweinwyr ôl-16 gyda thri/pedwar cyfarfod ar draws y flwyddyn. Ni fu rhwydweithiau pynciol; bydd y rhain yn ail-gychwyn yn nhymor yr Haf.

YMCHWIL A GWERTHUSO

Rydym yn parhau i weithio'n agos iawn efo'r Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Phrifysgol Warwick i hyrwyddo defnyddio dulliau yn seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion. Mae'r tri phrosiect isod, a ariennir gan GwE, yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ac yn hyrwyddo defnyddio strategaethau fwy seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion i wella deilliannau dysgwyr. Rydym hefyd yn gweithio ar hybu cysylltiadau fwy cadarn rhwng ymchwilwyr addysg mewn SaAU ac ysgolion, er mwyn sicrhau trosglwyddo gwybodaeth drwy gyfrwng yr 'hwyluswyr' drwy weithgareddau ailadroddol (Gorard, 2020).

Dyma'r gwaith ymchwil ac arfarnu sydd ar y gweill eleni:

1. Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith ac Ymchwil Plentyndod: Roedd prosiectau penodol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol/Hyrwyddo defnyddio mwy o strategaethau sydd â thystiolaeth yn sail iddynt ar draws rhanbarth GwE/Hybu cysylltiadau cryfach rhwng ymchwilwyr addysg mewn SAU ac ysgolion, er mwyn sicrhau trosglwyddo gwybodaeth yn ddiogel drwy gyfrwng yr 'hwyluswyr' drwy weithgareddau ailadroddol (Gorard, 2020)
2. Clystyrau Ymchwil CIEREI
3. Rôl strategol mewn datblygu model Canolfan/Sefydliad Ymchwil yng Nghymru
4. Clystyrau Ymholi AGA
5. Uwch arweinwyr/Cyllid Rhaglen Feistr
6. Dysgu Proffesiynol
7. Prosiectau ymchwil rhanbarthol

Cyfeirier hefyd at y Cynllun Busnes Ail-gydio mewn dysgu am fwy o fanylion am brosiectau penodol.

Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - CAM 2
Mae ein prosiect RILL cydweithredol yn enghraifft lwyddiannus o sut mae ymchwilwyr CIEREI a swyddogion GwE yn gallu cydweithio i greu ymyrraeth arloesol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i helpu dysgwyr, yn enwedig i gefnogi sgiliau

yn y Gymraeg.

Dechreuodd tîm ymchwil RILL ar waith Cam 2 ddechrau mis Mai 2021. Maent bellach wedi cwblhau'r addasiadau i'r fersiwn gydamserol/anghydamserol wreiddiol o RILL a ddatblygwyd yn 2020, ac mae'r rhain bellach yn cynnwys fersiwn ddiwygiedig i'w defnyddio yn y dosbarth a hefyd i rieni a gofalwyr. Ym mis Mehefin 2021 anfonwyd gwahoddiad i ysgolion fynychu hyfforddiant yn nhymor yr Haf a'r Hydref 2021.

Hyfforddwyd yr ysgolion i ddefnyddio RILL yn nhymor yr Hydref 2021. Yn ogystal â diwrnod hyfforddiant llawn, rydym yn cynnig sesiynau galw heibio wythnosol ar hyn o bryd i gefnogi athrawon. Rydym hefyd wedi datblygu rhwydwaith Hwb ble gall athrawon gael gafael ar wybodaeth a deunyddiau hyfforddiant (er enghraifft, tiwtorialau a fideos esboniadol), holi cwestiynau a myfyrio ar eu profiadau efo'r tîm ymchwil/athrawon eraill. Mae'r tîm ymchwil hefyd yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chymorth dilynol ar-lein mewn grwpiau bach. Mae'r tîm ymchwil hefyd wrthi'n helpu ysgolion i gynnal profion gwaelodlin er mwyn cael data effaith ar gyfer RILL. Cynhelir profion dilynol yn ystod tymor yr Haf. Yn ystod tymor y Gwanwyn, mae'r tîm ymchwil wedi canolbwyntio ar ddarparu cymorth parhaus i'r rheiny gafodd hyfforddiant yn ystod tymor yr Hydref. Yn ogystal â diwrnod hyfforddiant llawn i aelodau staff newydd o'r ysgolion hyn, maent hefyd yn cynnig sesiynau galw heibio wythnosol a chymorth unigryw i bob ysgol yn unigol. Yn ogystal â rhwydwaith Hwb ble gall athrawon gael gwybodaeth a deunyddiau hyfforddiant, gofyn cwestiynau a myfyrio ar eu profiadau , crëwyd gwefan newydd sydd â gwybodaeth a deunyddiau cefnogol i ysgolion, athrawon a rhieni. Ar y wefan ceir hefyd deunyddiau newydd i rieni eu defnyddio gartref gyda'u plant. Bwriedir i'r deunyddiau hyn gael eu gosod yn waith cartref gan yr athro ac maent yn cynnwys disgrifiadau Saesneg i rieni di-Gymraeg, yn ogystal â fideos i gefnogi darllenwyr llai hyderus. Mae'r tîm ymchwil hefyd wedi datblygu a pheilota batri o asesiadau ar-lein i gofnodi data effaith RILL ac mae'r tîm wrthi'n datblygu modiwl bach ar-lein ar gefnogi plant sydd ag anawsterau llythrennedd yn y dosbarth gan ddefnyddio technoleg. Yn y modiwl, rhoddir sylw i'r sgiliau gwaelodol sy'n cefnogi datblygiad llythrennedd a sut i gefnogi'r sgiliau hyn yn y dosbarth gan ddefnyddio technoleg Saesneg a Chymraeg. Bydd y modiwl ar gael i addysgwyr ar Blackboard maes o law.

Prosiect Doethuriaeth cydweithredol ar Dysgu Manwl a SAFMEDS

Bu ein gwaith ymchwil rhifedd SAFMEDS yn rhan arloesol a hynod lwyddiannus o'n darpariaeth CIEREI gydweithredol. Atgyfnerthwyd y gwaith hwn mewn ysgolion drwy gyfrwng cymorth gweithredu parhaus, gwefan SAFMEDS newydd ac wrth benodi myfyriwr Doethuriaeth SAFMEDS newydd i barhau â'r gwaith hwn a'i ymestyn.

Hyd yma, mae'r adnoddau SAFMEDS a ganlyn wedi'u creu a'u rhannu ag ysgolion:

- Bu sesiynau galw heibio ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth, ar gais
- Darparwyd hyfforddiant unigryw i ysgolion rhanbarthol ac UCD
- Hyrwyddo SAFMEDS drwy'r Bwletin a Chanolfan Cefnogaeth GwE
- Creu adnoddau dwyieithog fel a ganlyn:
    - Tiwtorial SAFMEDS ar-lein (lansiwyd)
    - Gwefan unigryw SAFMEDS ar-lein (lansiwyd)
    - Hyfforddiant SAFMEDS diwygiedig ar gardiau gaiff eu dal â llaw (yn barod i'w lansio)
    - Cyflwyniad i hyfforddiant Dysgu Manwl (yn barod i'w lansio)
    - Cardiau SAFMEDS Cam Ychwanegol i roi sylw ehangach i'r Fframwaith Rhifedd (lansiwyd)
    - Comisiynwyd creu deunyddiau Dysgu newydd - gellir defnyddio'r rhain fel darpariaeth wedi'i thargedu a darpariaeth gyffredinol, gan dargedu ymarfer adalw rheolaidd a datblygu rhuglder. (yn barod i'w lansio)
    - Gweminar yn amlinellu diweddariadau wedi'i ffrydio mis Ionawr 22.

Mae Prifysgol Bangor wedi penodi myfyriwr Doethuriaeth i gyflwyno'r prosiect dros y tair blynedd nesaf. Y nod yw meithrin capasiti i GwE gefnogi ysgolion.

Ym mis Ionawr 2022 ail-lansiwyd prosiect SAFMEDS yn ffurfiol ochr yn ochr â'n gwefan SAFMEDS newydd, sy'n fodd i ddisgyblion feithrin rhuglder gartref neu yn yr ysgol. Rhyddhawyd gweminar hefyd gyda ffeiliau wedi'u diweddaru ar y ganolfan adnoddau, ynghyd â meddalwedd trwsio ar y wefan. Dyma'r ffigyrau gwylio ar gyfer y wefan newydd:

- *Hyfforddiant cyfrwng Saesneg: 36 ymweliad*

- *Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg: 21 ymweliad*
- Ers 14/03/22, gwelwyd cyfartaledd o 332.83 sgôr y diwrnod (amrediad: 300 i 931), gyda phob disgybl yn chwarae cyfartaledd o 3 i 4 'gêm' y diwrnod.

Gwella Rhuglder mewn Darllen ar Lafar (i-FOR)
Mae ein gwaith Rhuglder Darllen hefyd yn rhan o'n darpariaeth arloesol, yn seiliedig ar dystiolaeth, a gyflwynir gan ymchwilwyr CIEREI ar y cyd â staff GwE. Prif ffocws prosiect iFOR ers 2021 fu creu a threialu deunyddiau newydd ac unigryw, drwy gyfrwng y Gymraeg i gyd-fynd â'r deunyddiau Saesneg parod. Credwn fod y prosiect hwn yn elfen bwysig o'r ddarpariaeth i wella rhuglder darllen i ddarllenwyr sy'n cael trafferth neu'n cychwyn arni.

Cofrestrodd 42 ysgol i gael mynediad at fideos hyfforddiant ar-lein ac adnoddau i'w lawrlwytho a'u defnyddio yn eu hysgolion. Mae 10 ysgol o ganlyniad wedi mynychu sesiwn holi ac ateb dilynol ar-lein. Gwahoddir pob ysgol yn awr i fynychu pedwar sesiwn gymorth i weithredu o bell ym mis Tachwedd 2021, Ionawr, Mawrth a Mai 2022, a gallant gysylltu â'r tîm ymchwil i gael unrhyw gymorth yn y cyfamser. Cynhaliwyd y cyntaf o'r sesiynau cymorth hyn ym mis Ionawr 2022. Mae datblygu'r deunyddiau Cymraeg ymhellach hefyd ar y gweill, gan eu gwneud yn gydnaws â'r deunyddiau Saesneg. Gwahoddir ysgolion hefyd i ddefnyddio prawf sgrinio DIBELS i fesur cynnydd mewn Rhuglder Darllen ar Lafar yn ogystal â chadw golwg ar ddefnydd rhieni o'r deunyddiau rhuglder hyn gartref. Dyma niferoedd athrawon sydd wedi defnyddio Google classroom:

- Mae 63 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg.

Mae dwy ysgol wedi mesur cynnydd gan ddefnyddio adnoddau sgrinio DIBELS ac mae un ysgol yn monitro cynnydd. Mynegodd chwe ysgol arall ddiddordeb mewn mesur cynnydd disgyblion gan ddefnyddio DIBELS. Gwahoddir ysgolion ychwanegol i gymryd rhan yn y prosiect yn nhymor yr Haf. Erbyn hynny bydd banc cyflawn o hyfforddiant a gweminarau cymorth wedi'u recordio ar gael.

Gwella Safonau drwy Adolygu Effeithiol (iStER)
Mae'r ysgoloriaeth ymchwil Doethuriaeth hon yn ei thrydedd flwyddyn, y flwyddyn olaf (2020-21), ac mae'r myfyriwr wrthi'n llunio papurau i'w cyhoeddi, yn canolbwyntio ar ddefnyddio strategaethau ymarfer adalw ac ymarfer profi. Mae'r myfyriwr bellach wedi cyflwyno cynnig i barhau â'r gwaith hwn gydag ystod o ysgolion uwchradd mewn cymunedau mwy difreintiedig.

Prosiect Parodrwydd Cadarnhaol ar gyfer Dysgu (PR4L)
Mae'r ysgoloriaeth ymchwil Doethuriaeth hon yn ei hail flwyddyn (2020-21), ac mae'r myfyriwr yn parhau gyda'i harfarniad o effaith strategaethau ysgol gyfan i gefnogi ymddygiad yn gadarnhaol mewn dwy ysgol sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig.

Prosiect Lles Cydweithredol Warwick
Mae'r ysgoloriaeth ymchwil Doethuriaeth gydweithredol hon yn ei hail flwyddyn (2021-22), ac mae'r myfyriwr yn parhau gyda'i harfarniad o ddarpariaeth les ysgol gyfan. Cwblhawyd y prif dasgau a ganlyn:

- adolygiad systematig o'r ddogfennaeth ar ymyraethau a rhaglenni lles ysgol gyfan. Cyflwynwyd hwn i'w gyhoeddi.
- Arolwg rhanbarthol ar ddefnydd ysgolion o raglenni lles yng ngogledd Cymru.

Bydd y drydedd agwedd ar y prosiect hwn, sef yr agwedd olaf, yn dechrau yn nhymor yr Hydref 2021. Arfarniad fydd hwn o raglen les addawol ysgol gyfan o'r enw Connect. Gwneir y gwaith hwn ochr yn ochr â dau fyfyriwr Meistr newydd dan nawdd KESS ym Mhrifysgol Bangor, a bydd yn golygu arfarniad o Connect ochr yn ochr â chyfieithu fersiwn iaith Gymraeg.

Astudiaeth KiVa UK
Mae GwE yn gyd-ymgeisydd ar y prosiect ymchwil hwn ar raddfa fawr i arfarnu effaith rhaglen gwrth-fwlio KiVa mewn ysgolion cynradd. Yn dilyn atal y prosiect oherwydd pandemig COVID-19, mae 30 ysgol yng ngogledd Cymru wedi'u recriwtio ar gyfer yr astudiaeth. Dewiswyd 15 ohonynt ar hap i gael KiVa yn 2021-22, a'r 15 arall yn 2022-23. Cafodd yr ysgolion ymyrraeth hyfforddiant yn nhymor yr Haf 2021, ac maent wedi bod yn cyflwyno KiVa er mis Medi 2021.

Clystyrau Ymchwil CIEREI

Bu GwE yn gweithio efo Llywodraeth Cymru ar gam cychwynnol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE) yn 2021, a lansiwyd hyn ym mis Gorffennaf 2021. Mae GwE wedi bod yn gweithio efo Llywodraeth Cymru i adnabod chwe ysgol yng Ngogledd Cymru i fod yn rhan o beilot 2021-22 y fenter hon i greu rhagor o ysgolion a lywir gan dystiolaeth. Bydd y gwaith hwn yn parhau ochr yn ochr â chydweithwyr o Brifysgol Bangor yn nhymor yr Hydref.

AGA

ANG

Cwblhawyd rhaglen Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol safonol i ANG gyda 321 o ANG GwE yn mynd i sesiwn 1 (92%) a 255 ANG yn mynd i sesiwn 2 (73%).

Bu presenoldeb yn y Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol (Sesiwn 3 - 6) yn gymysg oherwydd Covid a'r diffyg athrawon cyflenwi tymor byr sydd ar gael ar gyfer DP ar draws ysgolion. Rydym wedi ymateb i hyn drwy addasu'r Rhaglen DP i ANG a chynnig sesiynau yn ystod oriau ysgol ac ar ôl ysgol yn ogystal â recordio'r sesiynau hyn. Rhoddwyd y rhain ar lwyfan G6 ac ar wefan GwE. Cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn am y pedair sesiwn a gyflwynwyd gan staff GwE.

- *'Bu pob sesiwn yn fuddiol. Er hynny, fe ddaru'r sesiwn Cwricwlwm i Gymru a sut i ddefnyddio'r camau cynnydd a sut mae'r pedwar diben wedi'u cynnwys yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, gryfhau fy nealltwriaeth o'r CiG newydd'.*
- *'Darparwyd enghreifftiau o Brofiadau Dysgu Proffesiynol yn y sesiwn ac am beth mae gwirwyr allanol yn chwilio. Mae dolen at enghreifftiau wedi bod yn fodd i mi ysgrifennu fy Mhasbort Dysgu Proffesiynol a chael adborth rhagorol gan fy mentor.'*
- *Rydw i bellach yn treialu gwahanol ddulliau o AagD ar draws fy nosbarth. Rydw i bellach wastad yn meddwl am asesu ar gyfer dysgu a sut y gallaf ei wella yn fy nosbarth.*
- *Roedd y sesiynau ar reoli ymddygiad yn hynod o fuddiol a byddaf yn parhau i ddefnyddio hyn wrth i mi symud ymlaen.*
- *Bu pob sesiwn yn fuddiol i mi fel ANG. Buont yn llawn gwybodaeth ac yn werthfawr i fy natblygiad i fel ymarferydd. Mae'r sesiynau wedi rhoi syniadau ymarferol i mi allu'u defnyddio yn y dosbarth ac i werthuso fy arferion dysgu ac addysgu.*
- *Gwyliais y rhan fwyaf o'r arferion ar alw fel ysgol oherwydd nad oeddem ni'n gallu cael llanw i fy nosbarth oherwydd y dyddiadau gwahanol. Ond, mae'r sesiynau yr ydw i wedi llwyddo i ddal fyny â nhw wedi bod yn hynod ddefnyddiol ac wedi dylanwadau'n bositif ar fy natblygiad proffesiynol.*
- *Mae'r sesiynau wedi helpu i glirio unrhyw gamsyniadau am ddisgwyliadau ANG ac wedi fy helpu i ddefnyddio strategaethau yn fy arferion gwaith. Cyngor ar gwblhau Profiadau Dysgu Proffesiynol a Lles disgyblion ac athrawon.*

Rhaglen Ddatblygu i Fentoriaid Sefydlu

Crëwyd tair sesiwn 2½ yr un gan y Grŵp Sefydlu Rhanbarthol gyda chymorth cydweithwyr AGG yn Aberystwyth, Bangor a Phrifysgol De Cymru. Yn genedlaethol, mae 738 o MS wedi bod mewn o leiaf un o'r sesiynau efo 223 yn dod o ranbarth GwE (30%).

Cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan y Mentoriaid Sefydlu newydd;

- *"Syniadau hyfryd i gefnogi lles ANG ac awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu adolygiad terfynol effeithiol."*
- *"Y cyfle i roi sylwadau ar sesiynau ANG flwyddyn nesaf, edrych ar enghraifft o adolygiad MS, cael dweud sut mae proffil da yn edrych"*
- *"Hyfforddiant buddiol diolch yn fawr. Braf cael y cyfle i wrando ar brofiadau mentoriaid eraill a diolchgar iawn o'r amser i ymholi cwestiynau ar y diwedd"*

Cynllun lleoli ANG Llywodraeth Cymru

Mae rhai ANG mewn lleoliad ysgol am y tymor/flwyddyn - mae'r symudiad arloesol hwn yn sicrhau eu bod nhw wedi gallu llwyddo i addysgu a chefnogi eu sefydlu. Mae dros 100 o ANG cynradd a 30 ANG uwchradd yn ysgolion GwE yn elwa o'r cynllun hwn gan LC. Cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn unwaith eto gan Benaethiaid ac ANG.

Gwirwyr Allanol GwE
Mae nifer y Gwirwyr Allanol a gyflogir gan GwE yn dal yn eithaf cyson gyda rhyw 70 a charfan newydd yn cael ei recriwtio pob blwyddyn, yn bennaf drwy gwrs Arweinyddiaeth GwE i Reolwyr Canol. Yn 2021/22, trefnwyd nifer o sesiynau galw heibio i'r Gwirwyr Allanol gwestiynu a hefyd trafod materion penodol gyda Gwirwyr Allanol eraill yn ogystal â chydweithwyr GwE a'r ALl.

Cymraeg
Mae gwybodaeth myfyrwyr ac ANG o'r Gymraeg a Chymraeg o fewn Cwricwlwm i Gymru yn gwella yn unol â'r cynllun. Parheir i gydweithio â Phrifysgol Bangor i sicrhau bod addysgeg yn gwreiddio a bod disgwyliadau, yn enwedig o ran diwylliant ac etifeddiaeth Cymru, ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn cael sylw. Mae'r cwrs/llwybr TAR Cynradd cyfrwng Cymraeg yn gwbl weithredol.

Mae Ein Llais Ni, sef prosiect ymchwil cydweithredol yn seiliedig ar ymchwil, wedi'i gynllunio a'i weithredu'n dda. Cynhelir cyfarfodydd pob wythnos rhwng GwE a thîm ymchwil Prifysgol Bangor. Mae 100 o ysgolion cynradd ac uwchradd o bob ALl wrthi'n ymchwilio i addysgeg effeithiol i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando yn y Gymraeg. Bu bron i bob ysgol yn y Gynhadledd ac mae 60 yn ymwneud yn agos iawn ag agwedd ymchwil y prosiect drwy gwblhau holiaduron ar ddechrau ac ar ddiwedd y prosiect, ac maent hefyd yn cyfrannu at drafodaethau rhwydwaith rheolaidd am yr hyn a ddatblygir. Mae'r tîm ymchwil yn gweithio'n agos gyda nifer penodol o ysgolion i werthuso effaith y strategaethau. Mae dau aelod staff o Brifysgol Bangor ar y Bwrdd Llywio ac felly yn cyfrannu at ddatblygiad strategol y prosiect. Mae tîm ymchwil Prifysgol Bangor wedi cynhyrchu drafft cyntaf llawlyfr cyfeirio ar ddatblygiad sgiliau llafaredd.

AGA
Mae cyfathrebu a gwefan wrthi'n cael eu diweddaru. Mae newyddlen a gweminar ar y gweill a darparwyr gwybodaeth i ysgolion ble'n briodol. Rhoddwyd gwybodaeth i'r YCG am y datblygiadau diweddaraf i ysgolion; byddir yn ail-ymweld â hyn yn fuan. Mae hyn wedi sicrhau gwell dealltwriaeth o fanteision darpariaeth AGG lwyddiannus.

Mae dysgu proffesiynol ar y cyd wedi parhau ar draws y bartneriaeth ar sawl lefel, er enghraifft, drwy raglen feistr efo staff GwE/CaBan, hybu rhaglen feistr genedlaethol drwy gyfathrebu efo ysgolion drwy fwletin GwE, staff CaBan yn rhan o rwydweithiau Cwricwlwm i Gymru, staff allweddol GwE yn mynd i ddigwyddiadau dysgu proffesiynol CaBan, staff GwE yn darparu dysgu proffesiynol i staff a myfyrwyr CaBan, cynllun dysgu proffesiynol ar y cyd.

Bydd staff GwE yn mynd i gyfarfodydd a HMS staff CaBan ble bo hynny'n briodol, a bydd staff CaBan yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol GwE - e.e. Shirley Clarke, cyflwynwyd sesiwn CiG gyda 2 o staff GwE (gan gynnwys Uwch Arweinydd) i staff CaBan, staff GwE yn cyflwyno ar raglenni BA a TAR. Mae cyfanswm o 24 o staff GwE wedi cynnig sesiynau:

- 2020-21: Cyflwynwyd 17 sesiwn.
- 2021-22: Cyflwynwyd 11 sesiwn.
- Hwyluswyd 10 sesiwn seminar.

Bydd staff perthnasol o GwE ac ysgolion yn mynd i gyfarfodydd strategol a sicrhau ansawdd efo CaBan. Mae staff GwE, ysgol arweiniol a CaBan wedi cydweithio'n ddiweddar ar gais i Cyngor y Gweithlu Addysg.

Gwella ansawdd a rhannu arferion llwyddiannus - datblygwyd cysylltiadau â llwybrau CD ar y cyd drwy ddosbarth CD, rhannu llwybrau at addysgu a diweddaru LlC drwy Addysgwyr Cymru. Cynlluniwyd a gweithredir gweithdrefnau sicrhau ansawdd CaBan - bydd hyn yn nodwedd yn 2022-23. Llwyddwyd i wella cysondeb rhanbarthol a chenedlaethol drwy gyfrannu at drafodaethau a chysondeb cenedlaethol drwy UCET, cyfarfodydd rhanbarthol y Brifysgol Agored, cyfarfodydd diweddaru a rhanddeiliaid Estyn, rhan o ymweliad Estyn â CaBan ac ymweliad ymgysylltu Estyn â CaBan yn chwarter 1, cyfraniad staff GwE at arolygiad AGG Prifysgol Metropolitan Caerdydd drwy gydol 2021-22 a bod yn rhan o dreial Estyn gyda'r Brifysgol Agored ym mis Hydref 2021.

Ail-ymweld â chynnig staff AGG i ddatblygu dealltwriaeth staff GwE o addysgeg i ddysgwyr hŷn/oedolion - mae hyn ar y gweill, bydd y sesiwn yn rhoi sylw i hyn yn rhan o addysgeg a dysgu 3-6 Cwricwlwm i Gymru.

Datblygu llwybrau newydd ar gyfer ADY i sicrhau bod y proffesiwn yn cael ei uwch sgilio ar gyfer y diwygio mewn ADY a sicrhau bod prinder athrawon yn y rhanbarth ar gyfer Darparwyr Dysgu Ychwanegol yn cael sylw - crëwyd gweithgor gyda chymorth gan ddwy ysgol arweiniol ranbarthol. Ymgynghorwyd â LlC sydd yn gefnogol o'r llwybrau. Cyflwynwyd dau lwybr i Cyngor y Gweithlu Addysg i'w hachredu gyda'r bwriad o uwch sgilio'r proffesiwn addysgu

yn gyffredinol, AGG ac ANG. Parheir i fodloni anghenion Deddf Diwygio ADY a'n dysgwyr mwyaf bregus, yn enwedig recriwtio i ysgolion arbennig, rhagor o weithio ar y cyd, a hynny dros y tymor nesaf ac i gynnwys staff perthnasol o CaBan, GwE, ysgolion, ALl ac AB i ddatblygu'r rhaglenni ymhellach.

DIGIDOL

Cadernid Digidol

Mae GwE wedi recordio a rhyddhau tair pennod sy'n rhan o gyfres o bodlediadau yn trafod cadernid digidol. Ymhlith y pynciau a drafodwyd oedd 'Camwybodaeth', 'Aros yn driw i chi'ch hun ar-lein' a 'Chwarae gemau ar-lein'. Mae'r podlediadau wedi'u cydnabod yn genedlaethol, gyda Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio fel podlediad answyddogol i gefnogi eu tudalennau cymorth i ysgolion drwy wefan Hwb.

Datblygu Arweinyddiaeth Ddigidol

Mae'r rhaglen hwyluswyr digidol clwstwr wedi datblygu'n dda yn ystod chwarter 4. Rydym bellach wedi cyfarfod gyda'r hwyluswyr digidol 4 gwaith ac wedi rhannu banc o adnoddau defnyddiol er mwyn iddynt eu defnyddio i gefnogi ei gwaith yn y clwstwr. Mae'r 4 diwrnod wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- Yr achos dros newid – pam fod dysgu digidol yn bwysig mewn addysg / cymdeithas / ein bywydau bob dydd?
- Creu gweledigaeth a rennir – datblygu cyd-gyfrifoldeb am ddysgu digidol yn y clwstwr
- Cynllunio yn strategol
- Hunan-werthuso
- Arddulliau arwain a sefydlu tîm effeithiol
- Addysgeg digidol effeithiol

Mae'r mwyafrif o'r clystyrau yn y broses o sefydlu gweithgor dysgu digidol yn eu clwstwr, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob ysgol. Mae rhai clystyrau wedi cyfarfod fel gweithgor nifer o weithiau yn barod ac wedi creu gweledigaeth a rennir yn y clwstwr. Mae rhai wedi mynd ymlaen i ffurfio cynllun strategol fydd yn helpu pob ysgol o'r clwstwr i ddatblygu ac i ymgorffori'r weledigaeth. Hyd yma mae 353 o athrawon wedi bod yn rhan o weithgaredd sy'n ymwneud a'r rhaglen. Nod y rhaglen yn ystod y tymor nesaf yr sicrhau fod pob clwstwr yn:

- Datblygu gweledigaeth a rennir ac yn creu cynllun strategol i ddatblygu pob ysgol sy'n seiliedig ar y weledigaeth
- Creu cynllun dysgu proffesiynol sy'n targedu anghenion y clwstwr
- Sefydlu'r gweithgor yn llawn gan sicrhau cyfathrebu cyson a phenaethiaid y clwstwr

Hwb

Mae'r data ynghylch y defnydd o Hwb yn y rhanbarth yn parhau i fod yn uchel. Roedd nifer cyfartalog ysgolion y rhanbarth a ymgysylltodd â Hwb yn ystod chwarter 4 yn 98.06%. Roedd y cyfartaledd ar gyfer pob mis fel a ganlyn:

- Ionawr– 98.17%
- Chwefror – 98%
- Mawrth - 98%

Mae data mewngofnodi Hwb dros y blynyddoedd diwethaf yn dangos cynnydd yn y defnydd. Roedd y data yn amlwg am ddangos cynnydd dros y cyfnod clo ond mae'n dangos fod y defnydd o wasanaethau Hwb wedi cael ei gynnal yn dilyn dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnodau clo.

Nifer o fewngofnodion gan ddysgwyr y rhanbarth:
(Blynyddoedd ariannol)
2019/20 – 1,554,874 *- Cyn y pandemig*
2020/21 – 3,610,216 *- Cyfnodau clo*
2021/22 – 3,547,499 *- Dychwelyd i'r ysgol*

Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol

I gefnogi ysgolion gyda'u defnydd o Hwb, crëwyd cyfres o gyrsiau ar-lein sy'n canolbwyntio ar ddefnydd effeithiol o'r gwasanaethau sydd ar gael; Google for Education, J2E, Flipgrid, Adobe Spark. Mae'r cyrsiau hyn wedi'u cynllunio ar sawl lefel i sicrhau bod defnyddwyr newydd a phrofiadol yn gallu manteisio ar gyfleoedd datblygu. Cynigir yr hyfforddiant hwn fel cwrs sydd ar gael yn ôl y galw er mwyn sicrhau bod athrawon a chynorthwywyr dysgu yn gallu ymgysylltu ar amser sy'n gyfleus iddynt. Hyd yn hyn, mae'r cynnwys wedi'i wylio 9693 o weithiau – cynnydd o 2634 o weithiau ers chwarter 3.

Cefnogaeth Cwricwlwm i Gymru

Rhannwyd citiau o offer rhaglennu rhwng ysgolion ar draws y rhanbarth er mwyn rhoi cyfle iddynt arbrofi gyda gofynion o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Y bwriad yw bod yr ysgolion hyn yn gallu darparu / rhannu eu profiadau gydag ysgolion eraill a bwydo eu profiadau i mewn i rwydweithiau Cwricwlwm i Gymru lleol a rhanbarthol. Comisiynwyd 2 ymarferydd i baratoi adnoddau sy'n addas i arddangos ac ateb gofynion o fewn y llinyn cyfrifiaduro yng Nghwricwlwm i Gymru. Mae 10 adnodd wedi ei greu a'u rhannu hyd yma.

Hunan-adolygu

Roedd lansiad yr offeryn hunan-adolygu newydd, 360 Digi Cymru, wedi ei ohirio eleni. Rhyddhawyd y fersiwn prawf o'r offeryn yn mis Ionawr 2022 gyda'r fersiwn llawn i ddilyn yn Mehefin 2022. Rydym wedi cychwyn codi ymwybyddiaeth o'r offeryn drwy ein rhaglen hwyluswyr digidol, gan greu 3 gweminar i'r hwyluswyr rannu gydag ysgolion eu clwstwr er mwyn trafod ac ymgyfarwyddo â'r cynnwys.

MATHEMATEG A RHIFEDD

Cymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder:

- Cynradd: Mae cymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder neu mewn categori Estyn yn parhau i gael effaith gyflym ar y dysgu a'r addysgu mewn ysgolion sydd yn cael y cymorth hwn ac yn ymateb iddo. Pan wneir hyn mewn ffordd strwythuredig a chyson, gyda staff yn cael eu rhyddhau o'r dosbarth i weithio gyda'r YCG rhifedd, mae'r gwelliannau yn fwy effeithiol a chynaliadwy.
- Uwchradd: Mae cymorth ar gael i unrhyw ysgol sydd wedi'i hadnabod gan yr YCG yn y Cynllun Cymorth Ysgol. Rhoddir blaenoriaeth i ysgolion sydd mewn categori Estyn neu ysgolion ble mae Penaethiaid Adran newydd eu penodi.

O ran yr ysgolion hynny a gefnogwyd i wella'r dysgu a'r addysgu mewn Mathemateg a Rhifedd, mae bron pob un wedi dangos effaith sylweddol yn y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, yn ôl YCG, arweinwyr ac athrawon ysgolion. Mae ysgolion sy'n destun pryder neu mewn categori Estyn wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol i naill ai gael eu tynnu o gategori Estyn/cymorth 360 neu symud tuag at y nodau hyn o fewn amserlen dderbyniol.

Project Braenaru ar gyfer Dysgu Proffesiynol mewn Addysg Ariannol yng Nghymru: Cyflwynir ar y cyd ag YE/Prifysgol Caeredin ac fe'i ariennir yn allanol gan MaPS, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno addysg ariannol ar draws y rhanbarth (hyfforddiant e-ddysgu ac wyneb yn wyneb). Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar allu yr aelodau i gefnogi gwybodaeth, sgiliau ac agweddau eu dysgwyr ym meysydd allweddol addysg ariannol, yn cyd-fynd ag agweddau allweddol ar y Cwricwlwm i Gymru newydd. Bwriedir rhannu arferion effeithiol/gweminarau ysgolion prosiect yn y flwyddyn academaidd nesaf. YCG Rhifedd yn aros am adroddiad arfarnu o'r prosiect cenedlaethol.

Oherwydd gweithdai rhwydweithiau CiG rhanbarthol a lleol, ni ddarparwyd ystod o Ddysgu Proffesiynol penodol ar rifedd (fel y nodwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol). Mae athrawon sydd wedi bod ar weithdai CiG wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gynllunio at y cwricwlwm newydd ac arwain aelodau rhwydweithiau lleol eraill yn eu dealltwriaeth a'u cynllunio. Rhannwyd y cynlluniau a'r teithiau dysgu hyn ar y dudalen TEAMS rhanbarthol, yn barod i gyfrannu at y gweithdai cynllunio generig rhanbarthol. Byddant hefyd yn bwydo i hyfforddiant a gweithdai MDaPh rhifedd penodol yn y cynllun busnes nesaf.

Darparwyd gweithdy Dysgu Proffesiynol ar-lein gan Aelod Arloesi Cwricwlwm o un o ysgolion uwchradd y rhanbarth ym mis Tachwedd 2021. Roedd y gweithdy yn agored i holl ymarferwyr y rhanbarth ac fe'i recordiwyd a'i rannu er hwylustod. Nod y gweithdy oedd crynhoi'r newidiadau yn y maes dysgu a phrofiad mathemateg a rhifedd, cyn awgrymu tasgau a thechnegau i ddatblygu'r hyfedreddau mathemategol sydd yn rhan allweddol o'r cwricwlwm newydd. Cafodd yr aelodau ddealltwriaeth ddofnach o'r maes dysgu a phrofiad mathemateg a rhifedd, a'r newidiadau sydd eu hangen mewn addysgeg.

Mae'r YCG Rhifedd wedi parhau i gefnogi ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig y rhanbarth ar ddefnyddio'r Asesiadau Personol Ar-lein yn effeithiol. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant pwrpasol a rhannu canllawiau Llywodraeth Cymru. Llwyddodd hyn i ddatblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sut i'w defnyddio'n effeithiol fel adnodd Asesu ar gyfer Dysgu a mesur cynnydd dysgwyr. Rhannodd ysgolion y rhanbarth eu harferion gorau yn genedlaethol.

Mae'r YCG Rhifedd wedi parhau i ddatblygu adnoddau Dysgu Manwl a SAFMEDS ar y cyd â Phrifysgol Bangor a'r YCG Mathemateg a Rhifedd Uwchradd.

Maths.Cymru
Datblygwyd y wefan i gynnwys cymorth i ddysgwyr CA4 efo enghreifftiau sydd â gogwydd Rhifedd. Mae'r rhain bellach ar gael ar dair haen yn y ddwy iaith. Yn CA3, mae'r cynnwys ar gyfer Rhif ar gael ac yn dal i gael ei ddatblygu.

SAESNEG A LLYTHRENNEDD

Cynradd:
Mae cymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder neu mewn categori Estyn, yn parhau i gael effaith gyflym ar y dysgu a'r addysgu mewn ysgolion sydd yn cael y cymorth hwn ac yn ymateb iddo. Pan wneir hyn mewn ffordd strwythuredig a chyson, gyda staff yn cael eu rhyddhau o'r dosbarth i weithio gyda'r YCG rhifedd, mae'r gwelliannau yn fwy effeithiol a chynaliadwy.

Gwelwyd bod gweithdai mewn person efo athrawon ac/neu aelodau'r rhwydweithiau rhanbarthol/lleol yn goresgyn rhwystrau o ran cynhyrchu a rhannu modelau a theithiau dysgu, ac wedi bod yn fodd i'r YCG lenwi'r dudalen TEAMS gyda'r modelau hyn.

O ran yr ysgolion hynny a gefnogwyd i wella'r dysgu a'r addysgu mewn iaith a llythrennedd, mae bron pob un wedi dangos effaith sylweddol yn y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, yn ôl YCG, arweinwyr ac athrawon yr ysgolion. Mae ysgolion sy'n achosi pryder neu mewn categori Estyn wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol i naill ai gael eu rhyddhau o gymorth 360, categori Estyn neu symud tuag at y nodau hyn o fewn amserlen dderbyniol.

Ni chafodd gweithdai na hyfforddiant llythrennedd penodol eu cynnal, fel y nodwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol. Roedd hyn oherwydd mai gweithgareddau'r rhwydweithiau rhanbarthol a lleol oedd yn cael blaenoriaeth. Mae athrawon sydd wedi bod ar y gweithdai hyn wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gynllunio at y cwricwlwm newydd ac arwain aelodau rhwydweithiau lleol eraill yn eu dealltwriaeth a'u cynllunio. Rhannwyd y cynlluniau a'r teithiau dysgu hyn ar y dudalen TEAMS rhanbarthol, yn barod i gyfrannu at y gweithdai cynllunio generig rhanbarthol. Byddant hefyd yn bwydo i hyfforddiant a gweithdai MDaPh llythrennedd penodol yn y cynllun busnes nesaf.

Mae'r YCG Llythrennedd wedi parhau i gefnogi ysgolion y rhanbarth ar ddefnyddio'r Asesiadau Personol Ar-lein yn effeithiol. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant pwrpasol a rhannu canllawiau Llywodraeth Cymru. Llwyddodd hyn i ddatblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sut i'w defnyddio'n effeithiol fel adnodd Asesu ar gyfer Dysgu a mesur cynnydd dysgwyr. Rhannodd ysgolion y rhanbarth eu harferion gorau yn genedlaethol.

Uwchradd:
O ran yr ysgolion hynny a gefnogwyd i wella'r dysgu a'r addysgu mewn iaith a llythrennedd, mae bron pob un wedi dangos effaith sylweddol yn y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, yn ôl YCG, arweinwyr ac athrawon yr ysgolion. Mae ysgolion sy'n achosi pryder neu mewn categori Estyn wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol i naill ai gael eu tynnu o gymorth 360, categori Estyn neu symud tuag at y nodau hyn o fewn amserlen dderbyniol.

Ni chafodd gweithdai na hyfforddiant llythrennedd penodol eu cynnal i'r cynradd, fel y nodwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol. Roedd hyn oherwydd mai gweithgareddau'r rhwydweithiau rhanbarthol a lleol oedd yn cael blaenoriaeth. Mae athrawon sydd wedi bod ar y gweithdai hyn wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gynllunio at y cwricwlwm newydd ac arwain aelodau rhwydweithiau lleol eraill yn eu dealltwriaeth a'u cynllunio. Rhannwyd y cynlluniau a'r teithiau dysgu hyn ar y dudalen TEAMS rhanbarthol, yn barod i gyfrannu at y gweithdai cynllunio generig rhanbarthol. Byddant hefyd yn bwydo i hyfforddiant a gweithdai MDaPh llythrennedd penodol yn y cynllun busnes nesaf.

Bu Arweinwyr Llythrennedd mewn tair sesiwn hyfforddiant gwyll efo Kate Jones yn canolbwyntio ar Ymarfer Adalw. Rhoddwyd cynnig ar y strategaethau a drafodwyd mewn ysgolion, ac yna rhannwyd arferion da. Darparwyd hyfforddiant penodol ar Lythrennedd Disgyblaethol yn ystod cyfarfodydd fforwm i Arweinwyr Llythrennedd. Mae athrawon sydd yn mynd i'r cyfarfodydd hyn yn defnyddio'r strategaethau a drafodwyd wrth gynllunio ar gyfer CiG ac yn arwain ar y trafodaethau parhaus yn eu hysgolion.

Mae cymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder neu mewn categori Estyn, yn parhau i gael effaith gyflym ar y dysgu a'r addysgu mewn ysgolion sydd yn cael y cymorth hwn ac yn ymateb iddo. Pan wneir hyn mewn ffordd strwythuredig a chyson, gyda staff yn cael eu rhyddhau o'r dosbarth i weithio gyda'r YCG rhifedd, mae'r gwelliannau

yn fwy effeithiol a chynaliadwy.
Treialwyd pecyn 'Building Reading Power' mewn saith ysgol oedd yn destun pryder. Rhoddwyd pecyn hyfforddiant arbenigol ac adnoddau i bob ysgol a'u cefnogi gyda chyfarfodydd pob hanner tymor. Mae'r peilot yn parhau.

Rhoddwyd cyflwyniad llythrennedd a rhifedd ar y cyd i ystod o ysgolion i gefnogi'r angen i ystyried gweithrediad y sgiliau trawsgwricwlaidd hyn wrth iddynt gynllunio am y cwricwlwm newydd.

Cynhyrchwyd rhagor o fideos ar gyfer safle Herio - mae hyn yn parhau ac fe'u defnyddir yn helaeth ar draws adrannau Saesneg uwchradd y rhanbarth.

Gwelwyd bod gweithdai mewn person efo athrawon ac/neu aelodau'r rhwydweithiau rhanbarthol/lleol yn goresgyn rhwystrau o ran cynhyrchu a rhannu modelau a theithiau dysgu, ac wedi bod yn fodd i'r YCG lenwi'r dudalen TEAMS gyda'r modelau hyn.

Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD

Rhwydweithiau Y Gymraeg

Bu 2021-22 yn flwyddyn heriol ddiwethaf bu i gyfarfodydd rhwydwaith penaethiaid adrannau y Gymraeg fod yn fodd i arweinwyr gynnal ei gilydd a pharhau i ddatblygu'n broffesiynol. Yn fuan yn ystod cyfnod y pandemig, symudwyd i gyflwyno'r cyfarfodydd yn rhithiol gan gynnig hyfforddiant i'r penaethiaid ar ddefnydd o arfau digidol a dulliau dysgu ac addysgu cyfunol. Cynyddodd lefel hyder yr arweinwyr a'r athrawon yn eu hadrannau yn eu sgiliau digidol personol yn ogystal â'u haddysgeg ar lwyfannau digidol byw ac adeiladwyd eto ar waddol datblygiadau cyfnodau clo y pandemig eleni yn modd y bu i athrawon barhau i ryngweithio a rhannu adnoddau ar draws ein llwyfannau digidol. Trwy'r rhwydweithiau rhoddwyd mynediad i adnoddau cyfoethocach ac erbyn hyn, bydd adrannau'r Gymraeg yn creu a datblygu llyfrgelloedd o adnoddau digidol i'w rhannu o fewn eu hadran a thu hwnt. Bu ymweliadau ag adrannau unigol yn ystod y flwyddyn yn agoriad llygad i'r modd y rheolir gweithdrefnau adrannau ar lwyfannau digidol yn ogystal â'r modd y bydd dysgwyr yn rhyngweithio â'u hathrawon. Tyfodd y rhwydweithiau yn fforymau i'r arweinwyr rannu syniadau a datblygiadau yn ogystal â chyfleon i drafod cynnwys sesiynau DPP cenedlaethol (a gynhelir yn rhithiol erbyn hyn) gan fod yn fodd iddynt rannu negeseuon pwysig yn ogystal â chefnogi ei gilydd yn broffesiynol. Gwelwyd llwyddiant hyn yn parhau mewn rhwydweithiau a gynhaliwyd i gefnogi'r arweinwyr wrth iddynt gynllunio ar gyfer addasiadau arholiadau eleni ac mae'r egwyddor hon o gydweithio'n rhithiol bellach wedi'i sefydlu. Mewn cyfnodau heriol eleni trefnwyd sesiynau rhithiol agored, 'Ar alw', i'r arweinwyr eu mynychu os oedd angen cefnogaeth benodol neu ychwanegol arnynt a manteisiodd nifer fawr ohonynt ar y cyfleon hyn i dderbyn cefnogaeth wedi'i deilwra'n arbennig ar eu cyfer (ac mae'r model hwn yn parhau). Bydd sesiynau agored 'Ar alw' a chyfarfodydd yn cael eu recordio a'u gosod o fewn y Teams isod gan greu llyfrgell ddigidol o adnoddau chofnod o gyfarfodydd. Yn ychwanegol at hyn, bydd adrannau hefyd yn rhannu 'dosbarthiadau' neu 'dimau' rhithiol â'i gilydd gan greu cymunedau neu rwydweithiau proffesiynol rhithiol bychain a fydd yn targedu meysydd penodol a'r rhai hynny'n lleol yn aml e.e. clwstwr o ysgolion dalgylch yn cynnwys yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd, a bydd hwn yn fodel pwysig i'w ddatblygu ymhellach eto wrth feithrin cysylltiadau ar y daith i weithredu CiG yn ogystal â gwaith adrannau y Gymraeg o fewn eu cynghrair.

Eleni, defnyddiwyd model y gynghrair i gynnig cefnogaeth i Gydlynwyr Llythrennedd e.e. Cydlynwyr Llythrennedd Cynghrair Môn a fu'n fodd iddynt rannu'n rhithiol eu llwyddiannau'n lleol yn ogystal â syniadau er mwyn cydweithio ar gynlluniau yn y dyfodol. O safbwynt y Gymraeg yn arbennig, nodwyd pwysigrwydd ymyraethau llafaredd a bu i nifer o'r ysgolion ailedrych ar gynlluniau presennol a'u plethu â rhai o'r prosiectau a oedd eisoes ar waith gan greu ymyraethau penodol ar gyfer eu dysgwyr hwy, a'u cyflwyno'n draws ysgol trwy eu llwyfannau digidol. Buom yn rhan o'r datblygiadau hyn ac mewn ymweliadau ag ysgolion unigol cafwyd cyfle i drafod llwyddiant yr ymyraethau. Bu i gydlynwyr hefyd fynychu sesiynau 'Ar alw' dilynol yn unigol i drafod datblygiadau cynlluniau ymhellach yn lleol a gwelwyd pwysigrwydd creu a datblygu ymyraethau sy'n targedu anghenion dysgwyr ar lefel ysgolion unigol ond bod y gynghrair o ysgolion yn cynghori a chyfeirio'r datblygiadau trwy werthuso profiadau a hynny yn ei dro yn arwain at alluogi'r ysgol i hunan wella'r ddarpariaeth. Sefydlwyd llwyfan digidol ar gyfer rhyngweithio ac mae'r cydlynwyr yn awyddus iawn i barhau â'r cydweithio hwn gan ddatblygu cynlluniau traws ysgol ar y cyd.

Datblygu llwyfannau digidol 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd'

Rhennir gwybodaeth a rhwydweithio ar lwyfannau digidol ac mae'r rhwydweithiau digidol hyn bellach yn datblygu a'r athrawon yn ymgysylltu a chyfrannu tuag atynt. Yn ystod Chwarter 3 sefydlwyd Teams ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yn ogystal â 'GwE - Y Gymraeg – Uwchradd – CS (Cyfrwng Saesneg)' ac mae aelodaeth y Teams hwn yn parhau i gynyddu. Yn ystod Chwarter 4 sefydlwyd Google Classroom yn ogystal er mwyn ein galluogi i ymgysylltu'n haws ag athrawon sy'n gweithio o ddydd i ddydd ar lwyfan digidol

Google a chaiff cynnwys y llwyfannau digidol eu diweddaru'n gyson, gan eu cysoni a'u cadw'n gyfredol, hylaw a pherthnasol. Mae 'ffrwd' ymgysylltu'r llwyfannau digidol hyn yn bwysig ac yn cadw egwyddor y 'cylchlythyr' yn 'fyw' a chyfredol o fewn y Teams a'r Google Classroom a bydd athrawon yn cyfrannu tuag atynt.

Rhwydweithiau Rhanbarthol CiG

Yn dilyn cyflwyno'r rhaglen uchod (a'r rhaglen genedlaethol sydd ar y gweill) yn ystod Chwarter 3 mae'r sgyrsiau ynglŷn â'r modd y gellir rhaeadru'r wybodaeth i Benaethiaid Adrannau'r Gymraeg y rhanbarth wedi dechrau o fewn rhwydweithiau a'r gobaith yw y bydd y PAau yn cyfrannu tuag at gynllun i gyflwyno agweddau penodol o yn cael sesiynau agored 'Ar alw' â plethu â'r rhaglen Rhwydweithiau Rhanbarthol CiG. Y nod yw y bydd y sesiynau hyn yn creu banc o adnoddau i gefnogi PAau Y Gymraeg 'ar daith ddiwygio' eu hysgolion.

Prosiect 'Ein Llais Ni'

Mae'r prosiect rhanbarthol (sy'n brosiect ar y cyd â Phrifysgol Bangor) bellach yn weithredol – gweler 'Y Gymraeg' uchod. O ganlyniad i haen 'Strategaethau Byw' egwyddor prosiect 'Ein Llais Ni', parhawyd i greu cysylltiadau â phartneriaid a sefydliadau a allai gynnig cyfleon a phrofiadau unigryw i ysgolion uwchradd y prosiect a fydd yn eu tro yn datblygu'n gyfleon a phrofiadau y gellir eu rhannu'n rhanbarthol gan gryfhau'r berthynas a'r partneriaethau hyn. Yn ystod Chwarter 4 datblygodd haen 'Strategaethau Digidol' y prosiect i gynnwys cyfres o weithdai digidol yn canolbwyntio ar apiau a strategaethau hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando ar lwyfannau digidol a manteisiodd cynrychiolaeth o ysgolion uwchradd y prosiect ar y cyfle i ymuno â'r gweithdai hyn. Erbyn Chwarter 4 cafwyd tystiolaeth bod y prosiect bellach yn cael ei ymgorffori'n rhan o ymyraethau Llythrennedd traws ysgol ysgolion uwchradd unigol i dargedu blaenoriaeth hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando, ac egwyddorion y prosiect yn rhan o HMS ysgol gyfan. Bydd yr ysgolion uwchradd yn cyflwyno astudiaeth achos ar eu canfyddiadau terfynol maes o law a fydd yn rhan o'r pecyn hyfforddiant DPP a gaiff ei rannu'n rhanbarthol a chenedlaethol (gweler 'Adroddiad Monitro Chwarter 4 - Y Gymraeg')

'Y Stordy' - Canolfan Cefnogaeth GwE

Yn ystod Chwarter 4 mae'r gwaith o ddatblygu gwefan 'Y Stordy' er mwyn creu cartref hylaw a chyfleus ar gyfer adnoddau 'Y Gymraeg a Llythrennedd' yng Nghanolfan Cefnogaeth GwE yn parhau a'r nod yw y bydd y llwyfan hwn yn plethu â llwyfannau digidol 'byw' Teams a Google Classroom maes o law, gyda'r naill yn gartref parhaol a'r llall yn llwyfan datblygol.

Y Gweithgorau Cenedlaethol

Yn ystod Chwarter 4 parhaodd y drafodaeth traws-ranbarthol ynghylch dyfodol y Gweithgorau Cenedlaethol a'r modd y gellir eu datblygu. Bu cynrychiolaeth gref o ysgolion y rhanbarth ar y gweithgorau hyn a chartref ffrwyth gwaith y gweithgorau hyn yw'r 'Y Pair' , sef rhwydwaith adnoddau uwchradd Y Gymraeg ar Hwb. Yn ystod Chwarter 4, bu cyfraniad tri o benaethiaid adrannau'r rhanbarth i Gynhadledd Y Gymraeg consortiwm 'Partneriaeth' yn brawf o'r cyswllt agos a'r cydweithio traws-ranbarthol sy'n parhau a'r sylfaen sydd gennym i adeiladu arni.

Cynhaliaeth ar gyfer ANG Y Gymraeg 2021-22

Yn dilyn llwyddiant y gweithgor a sefydlwyd llynedd rhannwyd y syniad o sefydlu gweithgor cenedlaethol tebyg gyda'r swyddogion sy'n gyfrifol am y Gymraeg o fewn y consortia eraill, esgorodd hyn ar gynhadledd traws-rhanbarthol 'Athrawon Cymraeg Yfory', a byddwn yn cyfrannu tuag at y gynhadledd hon yn ystod Chwarter 4. Eleni, yn y rhanbarth roedd nifer ANG Y Gymraeg yn isel ond gwelwyd enghraifft effeithiol iawn o gynhaliaeth unigryw, gydag ANG llynedd yn cydweithio a chefnogi ANG eleni mewn un ysgol.

GWYDDONIAETH

Gwella ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu (addysgeg): mae'r tîm wedi parhau i ymhél â gwaith ymchwil, ac wedi cynnal DP drwy fynychu/edrych ar weminarau er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o ddylunio'r cwricwlwm a dysgu ac addysgu effeithiol ac ati. Mae hyn wedi dylanwadu ac effeithio ar ein gwaith gydag ysgolion ac wrth rannu'r arferion gorau. Mae hyn wedi:

- codi hyder arweinwyr ac athrawon Gwyddoniaeth wrth gynllunio a datblygu sgiliau o fewn Gwyddoniaeth (yn enwedig sgiliau llythrennedd disgyblaethol).
- mae mwy o hyder o fewn y gweithlu (y rheiny sydd wedi gallu gweithio gyda'r rhwydweithiau a chyfleoedd DP), mwy o hyder wrth addysgu a datblygu cwricwlwm Gwyddoniaeth a Thechnoleg sy'n gyfoes, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymateb i anghenion dysgwyr.
- mae'r Rhwydweithiau lleol a grëwyd ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg wedi gweithredu fel CDP a bu gwaith a chydweithio rhagorol ar lu o agweddau ar y CiG

Parhawyd i gefnogi athrawon a dysgwyr drwy wefan www.tanio.cymru ac mae ysgolion wedi croesawu a defnyddio'r wefan fel adnodd addysgu yn y dosbarth a thu allan. Mae'r wefan yn adnodd dwyieithog safonol a ddefnyddir gan ysgolion a dysgwyr ar draws Cymru ac sydd yn cael dylanwad cadarnhaol ar hyder dysgwyr a dysgu disgyblion yn y cartref a'r dosbarth. Mae'r 'traffig' ar y safle wedi bod yn gyson a gwelwyd mwy yn defnyddio'r wefan wrth i fyfyrwyr ddechrau paratoi ar gyfer tymor yr arholiadau.

Cymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder: mae'r tîm wedi darparu cymorth unigryw i'r ysgolion hyn ac wedi cefnogi gweithdrefnau sicrhau ansawdd ym mwyafrif yr ysgolion sy'n achosi pryder gan gynnwys arsylwi gwersi, llais y disgybl, craffu ar lyfrau. Mae'r tîm wedi darparu cynlluniau gweithredu a thargedau gwella i'r ysgolion hyn o ganlyniad i ymweliadau/adolygiadau ar-lein ac ati. Dilynwyd y cynlluniau gweithredu a bodlonwyd mwyafrif y targedau. Gwelwyd bod arweinwyr ac athrawon yn fwy hyderus a bod y safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu mewn Gwyddoniaeth yn well (drwy sicrhau ansawdd arferion). Cafodd y tîm hyfforddiant ar Hyfforddi a Mentora ac maent wedi rhoi'r technegau a'r arferion ar waith wrth weithio gydag arweinwyr ac athrawon, sydd wedi cael effaith bositif ar y berthynas rhwng YCG a'r rheiny a gefnogir.

Cefnogi ysgolion sy'n achosi pryder, yn enwedig y rheiny mewn categori Estyn: cafodd yr ysgolion hyn gryn gefnogaeth gan y tîm Gwyddoniaeth, ac mae arweinwyr yr adrannau hynny wedi magu hyder yn eu harweinyddiaeth. Tynnwyd 3 o 6 ysgol o gategorïau Estyn, maent i gyd bellach yn cael cymorth gan y tîm ac mae 3 o 6 wedi gwneud cynnydd sylweddol yn eu dealltwriaeth a'u cynllunio ar gyfer CiG.

Cefnogi datblygiad a gweithrediad y CiG gan gynnwys: y wefan gwyddoniaeth a thechnoleg, datblygu mapiau llwybr cynnydd ac adnoddau enghreifftiol i gefnogi gwaith cynllunio'r CiG newydd - croesawyd a defnyddiwyd hyn oll gan lawer o ysgolion ar draws y rhanbarth, yn ogystal â'r adnoddau hyfforddiant a ddatblygwyd gan y tîm Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Y CYFNOD SYLFAEN

Darparu cymorth unigryw i ysgolion sy'n achosi pryder, fel bod modd iddynt fwrw ati gyda'u taith welliant eu hunain.

Mae bron pob un o'r 32 ysgol sydd yn cael cymorth unigryw yn rhoi sylw i gamau gweithredu a nodwyd gan YCG y CS, sydd yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi llwyddo i weithredu i wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion gan leihau amrywiad o fewn ysgol mewn rhai ysgolion a mwy o gysondeb yn y dysgu a'r addysgu ar draws y rhanbarth. Mae'r cymorth hefyd wedi sicrhau dealltwriaeth ddofnach o egwyddorion ac addysgeg y CS sy'n cyd-fynd â'r addysgeg o fewn canllawiau Galluogi Dysgu a fframwaith CiG.

Gwella ymhellach y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion ym mhob ysgol yn y rhanbarth wrth baratoi i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae 25 ysgol yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil gweithredol gwaith coed. Mae'r pwyslais ar gynllunio profiadau dysgu cyfoethog i gefnogi dysgwyr tuag at wireddu'r pedwar diben. Byddant hefyd yn corffori llawer o'r 12 egwyddor addysgegol, sgiliau cyfannol, sgiliau trawsgwricwlaidd ac yn datblygu sgiliau ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad. Ers bod ar yr hyfforddiant cychwynnol, mae athrawon wedi cael dysgu proffesiynol, wedi cynnal darpariaeth gwaith coed newydd, wedi uwch sgilio'r tîm addysgu ac wedi cyflwyno sgiliau newydd i'r disgyblion. Mae athrawon wedi edrych ar effaith a deilliannau'r ddarpariaeth o ran y Fframwaith CiG, cynnydd disgyblion, ac wrthi'n cwblhau astudiaeth achos ar effaith a deilliannau. Yn rhan o hyn, maent wedi cwblhau gwaelodlin yn canolbwyntio ar agweddau at ddysgu, gan gynnwys sgiliau creadigol a meddwl yn feirniadol disgyblion a lefelau ymwneud (graddfa Leuven). Mae YCG y CS wedi cefnogi pob ysgol sy'n rhan o'r cynllun, gan gynnal ymweliadau safle, sesiynau galw heibio, darparu cymorth ar-lein, a chreu Google Classroom er mwyn annog cydweithio ar draws y rhanbarth. Mae YCG y CS wrthi'n cefnogi ysgolion i gynhyrchu astudiaeth achos sy'n amlygu effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion ac agweddau at ddysgu. Gofynnwyd i ysgolion gymryd rhan yn 'The Big Bang Research Project' yn ystod tymor yr Haf.

Cyfarfod Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen

Roedd 303 yn bresennol yng nghyfarfod Rhwydwaith Tymor y Gwanwyn (recordiad hefyd ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE)

Ffocws ar:

- ddiweddariadau i'r canllawiau 'Galluogi Dysgu' a gyhoeddwyd mis Ionawr 2022, yn rhan o Fframwaith CiG
- diweddariadau ar fodiwlau cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi Fframwaith Cwricwlwm i Gymru
- camau allweddol o ran datblygu ysgrifennu cynnar i gyd-fynd â 'Galluogi Dysgu', Fframwaith CiG.

Cyflwynwyd hyfforddiant penodol i ysgolion unigol a chlystyrau yn targedu yr agweddau hynny sydd angen eu blaenoriaethu e.e. 'Rôl yr oedolyn', 'Amgylcheddau Dysgu Effeithiol', 'Dysgu Dilys a Phwrpasol' (Galluogi Dysgu). Mae'r ffocws wedi bod ar ddatblygu'r elfennau hyn o fewn addysgeg sy'n briodol o ran datblygiad.

Darparwyd hyfforddiant ANG ar draws y rhanbarth. Ffocws ar yr amgylchedd dysgu effeithiol a'r oedolyn sy'n galluogi (rôl yr oedolyn).

Prosiect 'Ein Llais Ni' - darparwyd hyfforddiant ar strategaethau llafaredd effeithiol o fewn addysgeg y CS i ddatblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol ar draws pob maes dysgu. Cymorth ac ymweliadau unigryw i ysgolion.

Uwch sgilio YCG y CS i gyflwyno Modiwlau Hyfforddiant Cenedlaethol i gefnogi Fframwaith y CiG. Defnyddiwyd ac addaswyd modelau i ddarparu cymorth unigryw i glystyrau ac ysgolion unigol. Rhannwyd modiwlau yn ystod rhwydweithiau rhanbarthol a chyfarfodydd tîm GwE.

Mae sesiynau hyfforddi wedi:

- Dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o elfennau allweddol y canllawiau 'Galluogi Dysgu' i'w helpu wrth ddylunio, cynllunio ac asesu eu cwricwlwm.
- Mae ymarferwyr yn defnyddio cyfuniad o ddulliau addysgegol sy'n briodol i ddatblygiad ac yn corffori'r sgiliau cyfannol sydd yn ymateb i anghenion dysgwyr.
- Mae ymarferwyr yn creu cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, gan dynnu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol dysgwyr.
- Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth well o'r camau allweddol mewn ysgrifennu cynnar a sut mae darpariaeth sy'n briodol i gamau datblygiad yn cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd.
- Dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o bwysigrwydd amgylcheddau dysgu effeithiol a rôl yr oedolyn sy'n galluogi i:
  - wella dealltwriaeth o anghenion, sgiliau a chynnydd disgyblion
  - gadael i ymarferwyr weld ym mha ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn hoffi dysgu, a sut orau i'w cymell i gymryd rhan yn y broses ddysgu.
  - adnabod y dysgwyr hynny allai fod angen mwy o gymorth arnynt i'w helpu i gyflawni eu llawn botensial.
- Mae ymarferwyr yn deall bod arsylwadau effeithiol yn rhoi modd iddynt gynllunio darpariaeth sydd yn cefnogi mwynhad dysgwyr yn eu dysgu, yn ogystal â chynllunio i'w cefnogi i symud i gam nesaf y dysgu.
- Deall bod angen i'r asesu fod yn broses barhaus sydd yn rhan o arferion pob dydd, mewn ffordd ble na ellir ei gwahaniaethu rhwng y dysgu a'r addysgu.

Mae gan ysgolion fynediad at yr holl hyfforddiant/rhwydweithiau/astudiaethau achos ar arferion llwyddiannus (o fewn Canolfan Cefnogaeth GwE/Google Classrooms, Teams a Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen GwE ar HwB). Mae nifer fawr o ysgolion y rhanbarth yn defnyddio'r gweminarau ac ati o fewn cyfarfodydd staff a HMS i uwch sgilio'r gweithlu. Noda YCG fod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar ddeilliannau disgyblion.

AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH

Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau. Yn cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol.

ARWEINYDDIAETH

Cyffredinol/pob rhaglen

Yn ôl sylwadau ffurfiol ac anffurfiol gan aelodau, hwyluswyr a Mentoriaid Arweinyddiaeth, mae'r holl arweinwyr sydd wedi cymryd rhan ym mhob rhaglen ar draws y Llwybr Arweinyddiaeth wedi dangos:

- mwy o hyder ac effeithiolrwydd yn eu rôl.
- mwy o arweinyddiaeth gydweithredol ac arweinyddiaeth system yn datblygu ar draws y rhanbarth.

- yr agenda diwygio cenedlaethol yn cael sylw llawn.
- gwell dealltwriaeth o arweinyddiaeth ysgol sydd wedi paratoi mwy o unigolion yn well ar gyfer swyddi arweinyddol ar draws y rhanbarth.

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae'r Grŵp Arweinyddiaeth wedi gweithio gyda rhanbarthau eraill i ddarparu rhaglenni datblygu effeithiol ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel. Mae'r Grŵp wedi llwyddo i oresgyn heriau o ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig ac wedi parhau i sicrhau tegwch o ran mynediad i bob rhaglen datblygu arweinyddiaeth -h.y. Dull cyfunol/rhithiol a diweddaru cynnwys yn rhithiol i fodloni anghenion arweinwyr ble mae'r anghenion hynny'n newid yn gyson.

Yn sgil cyflwyno pob modiwl, bydd yr hwyluswyr yn hunan fyfyrio ar gynnwys ac ymroddiad yr aelodau. Drwy werthuso a mireinio cynnwys y rhaglenni fel hyn, sicrhawyd bod modd addasu i anghenion perthnasol arweinwyr ysgolion, o ran yr Agenda Cenedlaethol, a CiG yn benodol. Fel hyn, rydym wedi gallu bod yn fwy ystyriol o anghenion arweinwyr ysgolion yn ystod y pandemig byd-eang, gan sicrhau eu bod yn datblygu'r adnoddau a'r gwytnwch i arwain mewn cyfnodau heriol.

RhDAG a RhDUA
Llwyddodd bron i'r holl unigolion a gofrestrodd ar y rhaglenni RhDAG a RhDUA yn 2020-21 i gwblhau a chyflwyno'r effaith ar eu Tasg Profiad Arweinyddiaeth.

Yn ôl y sylwadau gan YCG a fu yn y sesiynau cyflwyno, roedd yr aelodau yn gallu disgrifio'n glir y datblygiad yn eu sgiliau arweinyddiaeth. Bu'r rhaglenni yn fodd i'r aelodau gyfrannu'n fwy effeithiol at systemau hunan-wella yn eu hysgolion.

Er gwaethaf yr heriau cyson oherwydd Covid, calonogol fu gweld cynifer o ymgeiswyr o bob sector/cyfnod yn gwneud cais am Ddysgu a Datblygiad Proffesiynol mewn Arweinyddiaeth yng ngharfan 2021-22.

Yn ôl gwerthusiadau/sylwadau gan yr aelodau ar y rhaglenni, gwerthfawrogir y defnydd o dasgau rhyng-sesiynol/rhyng-fodylol - yn enwedig felly i wneud rhywfaint o waith darllen ac ymchwil annibynnol cyn y sesiynau datblygol. Teimla'r aelodau eu bod wedi'u paratoi'n well ar gyfer y sesiynau ffurfiol, ac mae hyn wedi arwain at drafodaethau grŵp safonol ac wedi rhoi mwy o bwyslais ar arferion myfyriol unigolion a pherchnogaeth ar eu dysgu proffesiynol eu hunain.

Bu'r sylwadau ffurfiol ar ffurflenni gwerthuso yr aelodau yn galonogol iawn. Mae bron pob aelod wedi dweud bod y rhaglenni yn dda iawn neu'n rhagorol. Yn gyffredinol, noda'r aelodau eu bod yn gwerthfawrogi'r cyflwyniadau manwl, difyr yn seiliedig ar dystiolaeth, y cyfle i rwydweithio a chreu cymuned o bobl broffesiynol o'r un meddylfryd, agweddau rhithiol fel trafodaethau grŵp a sesiynau dwy-awr hylaw. Maent wedi mwynhau'r sesiynau ac yn gweld gwerth y cyfle i hunan fyfyrio, dysgu sut i arwain pobl a chanolbwyntio ar yrru tasg arweinyddiaeth ysgol gyfan. Maent hefyd wedi elwa o gymorth mentoriaid sydd yn arweinwyr ysgol effeithiol wrth eu gwaith ac yn ymarferwyr cyfoes sydd wedi cyflwyno ar y modiwlau datblygu.

RhDDA (CPCP)
Llwyddodd bron i gyd o'r 74 unigolyn a wnaeth gais am Garfan 2020-21 i gwblhau'r rhaglen.

O'r unigolion hyn, dewisodd 57 fynychu'r Ganolfan Asesu CPCP ym mis Mawrth 2022 ble bu 65% yn llwyddiannus. Mae'r gyfradd lwyddo tua 10% yn llai na'r blynyddoedd blaenorol ac yn llai na'r targed o 80% osodwyd yn y Cynllun Busnes gwreiddiol. Mae tri unigolyn arall wedi mynegi diddordeb i gael eu hasesu yn y Ganolfan Asesu ym mis Mehefin 2022.

Cyflwynwyd y cwrs am y tro cyntaf eleni ar ôl iddo gael ei addasu i'w gyflwyno'n rhithiol/gyfunol. Cafwyd niferoedd da yn y sesiynau a llwyddwyd i gadw at yr amserlen.

Dengys gwerthusiadau ffurfiol bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi rhoi cofnod cadarnhaol iawn o gymorth y Mentor Arweinyddiaeth. O'r sylwadau cadarnhaol hynny, nododd yr ymgeiswyr:

- roedd yr agwedd cefnogi cymheiriaid yn amhrisiadwy
- cymorth effeithiol wrth baratoi am y Ganolfan Asesu

- cymorth effeithiol ar gyfer mireinio'r Adolygiad Safonau Arweinyddiaeth
- buddiol cael tynnu rhywun o leoliad ysgol ymgeisydd i drafod agweddau datblygol
- cymorth effeithiol gan unigolion sydd â chyfoeth o brofiad amrywiol yn y rôl
- cymorth effeithiol gan rywun sydd â phrofiad o sector penodol profiad

Dengys gwerthusiadau ffurfiol bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr a aseswyd wedi cytuno bod y ganolfan asesu wedi'i threfnu'n dda a bod y paneli asesu yn heriol ac yn gefnogol. Roedd pawb bron yn cytuno, neu'n cytuno'n gryf, bod strwythur y cyfweliad, mewn dwy ran a dau gyflwyniad ar wahân, yn gefnogol a bod cydbwysedd y cwestiynau a'r cyflwyniadau a gafwyd yn rhoi cyfle i gyfleu gwybodaeth, sgiliau a chredoau yn fanwl gywir.

Rhaglen i Benaethiaid Newydd a Dros Dro
Mae gan bob Pennaeth Newydd a Phennaeth Dros Dro fynediad at gymorth cyffredin, generig neu benodol, gan ddibynnu ar yr angen, yr amgylchiadau a'r math o ysgol. Mae'r cymorth hwn yn ategu'r cymorth unigol gan bob ALl. Ar y cyfan, cafwyd niferoedd da yn y sesiynau datblygu.

Ar gyfer 2021-22 (Carfan 4), mae strwythur newydd a gwell y rhaglen hon eisoes wedi sicrhau bod Penaethiaid yn cyfrannu fwy e.e. trafodaethau grŵp llai sy'n berthnasol i anghenion lleol.

Eleni, addaswyd y rhaglen i ddarparu ystod eang a chymysgedd o gyflwyniadau cenedlaethol gan siaradwyr gwadd ar draws y byd a chyflwyniadau gan benaethiaid profiadol ac effeithiol yn lleol. Mae meysydd fel arwain cydweithio, arloesi, lles a datblygiad proffesiynol yn themâu cyson yn y sesiynau.

Yn ôl arwyddion a sylwadau cynnar, awgrymir bod carfan eleni wedi gwerthfawrogi'r rhaglen 'ar ei newydd wedd' yn fawr iawn - credant fod cydbwysedd y cyflwyniadau cenedlaethol a rhanbarthol yn llawn mwynhad a gwybodaeth.

Rhaglen i Benaethiaid Profiadol
Rhoddwyd saib ar y rhaglen hon dros dro, a gyflwynir gan asiantaeth allanol, oherwydd yr heriau parhaus sy'n wynebu penaethiaid.

LLYWODRAETHWYR

Mewn cytundeb â'r AauLl, cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol mewn Diwygio Addysg.
Yn rhan o'r cymorth parhaus ar gyfer Dysgu Proffesiynol i Lywodraethwyr, gwnaed nifer o gyflwyniadau ar draws y rhanbarth gyda'r nod o gyflwyno fframwaith Cwricwlwm i Gymru i Lywodraethwyr. Cafwyd niferoedd da yn y sesiynau hyn ym mhob Awdurdod Lleol, fel bod modd i lywodraethwr sy'n mynychu gael gwell dealltwriaeth o'r agweddau a gyflwynir, bod yn fwy hyderus wrth gefnogi eu hysgolion a gallu cyfrannu'n fwy strategol at drafodaethau'r corff llywodraethu.

Darparu hyfforddiant cyn-arolygiad i Lywodraethwyr ar ddisgwyliadau Estyn yn ystod arolygiad.
Ni ddarparwyd hyfforddiant cyn-arolygiad yn ystod y chwarter hwn. Roedd cymorth ychwanegol ar gael i ysgolion mewn categori. Nawr bod arolygiadau peilot ar y gweill, bydd cynrychiolwyr GwE yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod Llywodraethwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran paratoi at arolygiad.

Targedu cynhaliaeth i Lywodraethwyr ar agweddau y nodwyd yn eu Hunan Arfarniad fel rhai sydd angen eu gwella.
Ni wnaethpwyd cais am dargedu cynhaliaeth y chwarter hwn. Bydd GwE yn cefnogi llywodraethwyr i gael gwell dealltwriaeth o'r agwedd i'w gwella, a'r hyder i hunan wella.

CYNGHREIRIAU / RHWYDWEITHIAU / CLYSTYRAU

Mae bron pob ysgol uwchradd wedi mynd i'r afael yn effeithiol â chynghreiriau lleol i gydweithio gyda chyfoedion i ddatblygu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol a chefnogi partneriaid gyda phrosesau o ran paratoi at ddyfarnu graddau yn 2021. Cafodd y gwaith hwn effaith sylweddol ar ansawdd y ddarpariaeth a'r cymorth i ddisgyblion yn ystod y pandemig.

Yn ogystal, mae pob ysgol uwchradd yn weithgar yn y cydweithio clwstwr ar y CiG gydag ysgolion cynradd eu dalgylch ac wedi ymwneud yn dda mewn gweithdai a gweminarau CiG. Targedir cynhaliaeth i sicrhau bod pob ysgol

wrthi'n dylunio ac yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd o 2022 neu 2023. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ymhellach, mae Rhwydweithiau MDaPh ar lefel ranbarthol a lleol yn weithredol ac yn maent yn defnyddio TEAMS a Chanolfan Cefnogaeth GwE yn effeithiol i gyfleu a rhannu'r dysgu a'r arferion llwyddiannus ar draws y rhanbarth. Mae arweinwyr yn dangos mwy o hyder wrth baratoi i gyflwyno'r cwricwlwm yn 2022 [neu 2023 i'r rheiny sydd wedi dewis hynny].

Mae nifer o gynghreiriau yn datblygu arferion cryf cynnar o ran cynllunio gweithgareddau ar y cyd i gefnogi'r daith ddiwygio ac agweddau ar wella ysgol.

Mae mwyafrif y cynghreiriau uwchradd wedi mabwysiadu'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion fel cyfrwng ar gyfer eu prosesau gwella ansawdd a sicrhau ansawdd. Er hynny, mae'r pandemig wedi cyfyngu ar weithgareddau a'u llesteirio yn arw. Bydd angen parhau i roi sylw i gefnogi'r cynghreiriau i ail-godi a datblygu systemau a phrosesau cadarn yn 2022-23. Mae arweinwyr wedi dangos parodrwydd cryf i ail-gydio yn y rhaglen ac maent wrthi'n cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi.

AMCAN 4 – YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL

Wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles

GDD PMG

Datblygu'r strategaeth GDD genedlaethol ymhellach a'i gweithredu ar draws y rhanbarth.
Gwreiddio'r model clwstwr/cynghrair GDD PMG ar draws y rhanbarth.

PDG

Gweithredwyd y strategaeth ranbarthol GDD ar draws y rhanbarth gyda phob ysgol/lleoliad yn manteisio ar y cynnig dysgu proffesiynol 'Meddwl yn Wahanol' ar ben y cymorth gan yr YCG. Mae pob ysgol/lleoliad yn defnyddio'r dangosfwrdd GDD fel tystiolaeth o gronfeydd. Mae tystiolaeth bod y cyllid ychwanegol dan reolaeth y consortia yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi'r prosiectau dysgu carlam ychwanegol yn unol â'r tîm ymchwil yn CIEREI/iechyd a lles ysgol gyfan a thargedu cynhaliaeth. Mae'r GDD yn cyd-fynd â chefnogi dull gweithredu ysgol gyfan tuag at les a thargedu cynhaliaeth/ymyraethau. Elfen GDD Blynyddoedd Cynnar y strategaeth ranbarthol - cynhaliwyd nifer o sesiynau Talk Boost i ysgolion targed; mae wyth ysgol wedi cael yr hyfforddiant hyd yma. Rydym hefyd wedi datblygu ffurflen monitro blynyddol ALl sydd yn dangos sut y bwriedir defnyddio'r grant yn unol â'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir.

GDD PMG a Llesiant

Dyma'r prif ddatblygiadau:

- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dechrau'r broses o newid diwylliant/ethos a meddylfryd yr ysgol drwy fframwaith ysgol gyfan Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma (TIS)/Dull Adferol ac Annog.
- Mae bron pob ysgol wedi bod cael hyfforddiant DP TIS ysgol gyfan ar draws y rhanbarth.
- Mae bron pob ysgol wedi bod mewn o leiaf un o'n sesiynau DP ar Lesiant.
- Mae pob clwstwr ble mae nifer uchel o PMG wedi bod ar y DP TIS neu Rhestr Wirio Arsylwi.
- Mae mwy o bolisïau a strategaethau sydd yn seiliedig ar berthynas mewn ysgolion o ganlyniad i'r DP TIS.
- Mae tystiolaeth o ddatblygu arferion cydweithredol rhwng ysgolion/clystyrau/CAMHS a gwasanaethau plant.
- Mwy o leoliadau yn hyderus i ddefnyddio ystod o fesurau effaith ac arfarnu o safbwynt lles.
- Mae'r cyfathrebu a'r cydweithio yn gryfach gyda'r awdurdodau lleol ac Iechyd o ran y targedu cynhaliaeth a'r cymorth cyffredinol.
- Cwblhawyd y mapio Rhanbarthol ac ALl ar gyfer Llesiant.
- Mwy o ysgolion yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar niwro-wyddoniaeth yn y dysgu a'r addysgu, gyda
    - Staff yn fwy hyderus yn eu dulliau
    - Dysgwyr yn gallu hunan-reoleiddio/myfyrio ar eu hymddygiad a'u teimladau yn well.
    - Newidiadau mewn Ymddygiad Dysgwyr a Gwaharddiadau
    - Agweddau at ddysgu wedi newid - dysgwyr a staff
    - Dysgwyr yn hapusach yn yr ysgol
- Pecyn TIS ymarferol i ysgolion ei ddefnyddio drwy'r dull cyffredinol
- Ffurfiwyd Rhwydwaith Cymuned sy'n Ystyriol o Drawma/Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl sy'n dod ag addysg a gwasanaethau plant ynghyd i gefnogi dysgwyr.

- Staff yn defnyddio 'Lle i fyfyrio' a sesiynau cymorth.
- Mae'r GDD PMG yn cyd-fynd â'r ffocws ysgol gyfan a CiG gyda bron pob clwstwr wedi cwblhau'r dangosfwrdd.
- Mae pob ALl/ysgol wedi manteisio ar y Cynnig DP i Arweinwyr Dynodedig.
- Gwelwyd cynnydd yn yr ysgolion sydd â PMG sydd wedi manteisio ar ein Cynnig Dysgu Proffesiynol.
- Cefnogwyd ysgolion/lleoliadau i weithredu'r dysgu proffesiynol yn y cwricwlwm a'r addysgeg yn ogystal â'r ymyraethau ychwanegol.
- Cynhaliwyd 3 sesiwn DP i ANG ar draws y rhanbarth i fod yn wybodus am drawma a gwreiddio arferion yn y dysgu a'r addysgu.
- Dyfarnwyd statws TIS i dair ysgol gynradd yn y rhanbarth.
- Mae gennym ddau hyfforddwr sydd yn gymwys i gyflwyno hyfforddiant TIS ysgol gyfan yn y Gymraeg.
- Dros y chwe mis diwethaf, mae'r YCG wedi cyflawni statws ymarferydd TIS ac wedi plethu eu sgiliau a'u gwybodaeth â'u rôl cefnogi ysgolion.

Cefnogi lles emosiynol yr unigolyn yng nghyd-destun eu rôl broffesiynol.
Rhoi iechyd a lles wrth wraidd popeth a wnawn.

Ein prif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn o newid a tharfu digynsail fu diogelwch a lles ein plant a'n gweithlu, a gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc drwy gydol y cyfnod hwn. Canolbwyntiwyd ar amrywiaeth o agweddau ar yr agenda llesiant e.e. gwytnwch, addasu i amgylchedd sy'n newid, myfyrio personol, dysgu gweithredol ac ati:

- Darparu 'Lle i Fyfyrio' - darparu bloc o sesiynau efo Dr Coral Harper neu Mike Armiger. Mae Dr Coral Harper a Mike Armiger wedi ymrwymo i weithio ar draws y rhanbarth o fis Medi 2021 ac wedi dyblu faint o Lefydd i Fyfyrio sydd ar gael i Uwch Arweinwyr.
- Sesiwn grŵp i ymarferwyr TIS efo Coral Harper. 1 sesiwn pob tymor. Chwe grŵp drwy gydol y flwyddyn.

Parheir i ddefnyddio 'Lle i Fyfyrio' ar draws y rhanbarth a cheir sylwadau calonogol gan yr hyfforddwyr a'r hyfforddeion.
Mae Dr Coral Harper neu Mike Armiger yn gweithio hyd eithaf eu gallu. Yn ôl data mis Hydref, mae Mike Armiger yn gweithio gyda saith arweinydd ysgol am 12 mis gyda chyfarfodydd pob hanner tymor.

Mae Coral yn cyflwyno cyfanswm o 43 sesiwn efo 10 arweinydd ar draws y rhanbarth sydd yn golygu eu bod yn cael cyfanswm o chwe sesiwn yr un. Bydd hyn yn parhau hyd at fis Chwefror 2022 ac adeg hynny cynhelir adolygiad i gynllunio sut i ymestyn y cynnig i fwy o bobl. Mae GwE hefyd wedi creu lle i rywfaint o gymorth 'brys' ble mae ysgolion yn wynebu her benodol. Mae sesiynau grŵp ar y gweill ar gyfer tymor y Gwanwyn 2022. Trefnir rhagor o gyfarfodydd efo Mike Armiger a Coral Harper i ymestyn y cynnig Cymorth Lles i arweinwyr ar draws y rhanbarth.

Defnyddio fframwaith hyfforddi *(coaching)* mewn sgyrsiau, cyfarfodydd ac arweinyddiaeth o ddydd i ddydd i ddatgloi potensial ac annog unigolion i ddatblygu.

Mae hyn yn parhau gyda staff yn gwneud y cwrs ILM Lefel 7 mewn Hyfforddi a Mentora Gweithredol. Mae 'Lle i Fyfyrio' Cenedlaethol wedi dechrau gyda staff GwE yn cefnogi cydweithwyr o Dde Cymru. Bydd Shane Fletcher, Rheolwr Tîm Rygbi y 'Crusaders', yn dechrau sesiynau grŵp i 11 o arweinwyr y tymor hwn yn seiliedig ar sgyrsiau adeiladol, sy'n canolbwyntio ar ddatrysiad. Bydd hyn ar sail cylch pedair wythnos a'r grŵp fydd yn pennu cynnwys y sesiwn.

LLES YSGOL GYFAN (MDPh)

Hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol Gwybodus yng Nghymru'
Datblygu Ymagwedd Ysgol Gyfan at les
Cyd-greu adnoddau Lles Ysgol Gyfan gydag ysgolion ar draws y rhanbarth

Menter TEDxGwE

Fel gwasanaeth, ymunwyd â Chynllun Carbon Niwtral Nawr y CU ddwy flynedd yn ôl i wrthbwyso allyriadau teithio GwE. Datblygwyd y berthynas hon ymhellach drwy gefnogi'r 'Her 100 Ysgol'. Wrth i ni symud yn agosach at Gynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, Cynhadledd y Pleidiau (COP26) yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021, rydym wedi penderfynu gweithredu ymhellach drwy ddatblygu menter TEDxGwE.

Menter fyd-eang yw TEDx i hyrwyddo a chyflymu datrysiadau o ran argyfwng yr hinsawdd gan weithredu ar

syniadau. Cynhaliodd GwE ddigwyddiad TEDxGwE ar 1 Tachwedd 2021 i blant a phobl ifanc ar draws Gogledd Cymru gan ddatblygu partneriaeth Gogledd Cymru a chysylltiadau efo Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Theatr Clwyd, Do Well Ltd, Tales to Inspire ac Adfywio Cymru (RENEW Wales).

Yma yng Ngogledd Cymru, rydym eisiau defnyddio TEDxGwE i sbarduno trafodaethau ag arweinwyr yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, mewn cymunedau ac efo'n plant a'n pobl ifanc ynghylch yr her sydd yn wynebu pawb ohonom a gweithredu ar syniadau plant a phobl ifanc Gogledd Cymru. Ein nod yw dod â'n rhanbarth at ei gilydd i fynd i'r afael â newid hinsawdd gan fod hyn yn gyfrwng perffaith i fod yn datblygu'r agwedd Egwyddorol Gwybodus ar y Cwricwlwm i Gymru.

Rydym am weithio gyda phlant a phobl ifanc, gan ddefnyddio eu llais i danio trafodaeth ar draws y rhanbarth a fydd yn arwain at weithredu drwy ddod â phobl ynghyd i ddeall yr her, edrych ar y datrysiadau mwyaf effeithiol ar y cyd ac sydd yn seiliedig ar dystiolaeth, gan sicrhau bod pawb ohonom yn ymateb i'r her. Nod digwyddiadau TEDx byd-eang yw ateb pum cwestiwn sy'n gysylltiedig â'i gilydd sydd yn helpu i gyfrannu at gynllun ar gyfer dyfodol glanach:
Ynni - Pa mor sydyn allwn ni symud at bŵer glân 100%?
Trafnidiaeth - Sut allwn ni uwchraddio'r ffordd yr ydym yn symud pobl a phethau?
Defnyddiau - Sut allwn ni ail-feddwl ac ail-greu y pethau o'n cwmpas ni?
Bwyd - Sut allwn ni danio symudiad byd-eang tuag at systemau bwyd iachach?
Natur - Sut ydym ni'n amddiffyn ac ail-wyrddu'r ddaear yn well?

Cofrestrodd ysgolion ar y digwyddiad gan gyflwyno fideo 60 eiliad yn defnyddio Flipgrid. Casglwyd y fideos a'u rhannu â chynulleidfa ehangach. Cafodd yr ysgolion becyn cymorth i gefnogi'r aelodau i ddatblygu sgwrs TED fel bod modd iddynt rannu eu hanesion, eu materion, eu syniadau a'r camau gweithredu sydd yn angenrheidiol i greu dyfodol gwell.

Bu TEDxGwE yn ddigwyddiad llwyddiannus gyda 12 ysgol ar draws y rhanbarth yn bresennol. Fel dilyniant, rhoddwyd y cyfle i'r holl ysgolion gymryd rhan mewn Ymchwil Gweithredol yn rhan o'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP). Derbyniodd bedair ysgol y cynnig. Rydym yn parhau i weithio gyda Phrifysgol Glyndŵr a phartneriaid allweddol eraill fel Adfywio Cymru i hybu'r gwaith. Mae'r holl fideos TEDx ar wefan GwE.

Mae pob ysgol wedi cael teirawr o fentora gan Do-Well Ltd a Tales to Inspire, i'w cefnogi wrth baratoi'r sgwrs TED. Mae GwE wedi gweithio mewn partneriaeth agos â Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam, Cyfoeth Naturiol Cymru, Adfywio Cymru, Do-Well (UK) Ltd a Tales to Inspire i wireddu'r digwyddiad hwn.

Yn rhan o'r grŵp Llesiant Cenedlaethol, mae GwE yn cydweithio â Mind Cymru i gynnig cyfle dysgu proffesiynol rhithiol wedi'i hwyluso (yn y Gymraeg a'r Saesneg) O fis Medi 2021, mae ysgolion wedi cael mynediad at Sesiwn Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a Rheoli Iechyd Meddwl yn y gwaith a chefnogi staff. Mae'r niferoedd o ysgolion yn brin ar hyn o bryd oherwydd cynhwysedd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phartneriaid allweddol i drefnu digwyddiad TEDx yn y dyfodol ar gyfer 2022/2023.

Mae Prifysgol Glyndŵr yn cefnogi gwaith recordio cân ar gyfer ysgolion TEDx.

Rydym yn edrych ar opsiynau ar gyfer creu Panel Ieuenctid Ymgynghorol i lywio gwaith sy'n ymwneud ag iechyd a lles a dinasyddion moesol gwybodus.

STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI / GOFALWYR

Arwain, rheoli a chydlynu'r maes o gefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysg eu plentyn. Sicrhau cyflwyno "Helpu eich plentyn i ddysgu" yn effeithiol i ysgolion a rhieni a gofalwyr ar draws Cymru.
Sicrhau cydlyniant a chapasiti addas i ddarparu adnoddau rhanbarthol o safon uchel yn y maes hwn.

Sefydlwyd y grŵp rhanbarthol gyda chynrychiolaeth gan GwE a phob ALl i arwain, rheoli a chydlynu'r maes o gefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysg eu plentyn.
Dyma'r prif ddatblygiadau:

- Mae datblygwr yr Adnodd wedi gweithio ochr yn ochr â GwE, gan rannu gwybodaeth ag ysgolion ac

mae wedi cytuno i ymestyn y cyfnod trwyddedu 2-flynedd o fis Medi 2022 am ddwy flynedd.

- Mae datblygwr yr Adnodd wedi creu Helpu eich Plentyn i Ddysgu (HYCTL) ar gyfer disgyblion Cynradd a Blynyddoedd 7 a 8.
- Mae datblygwr yr Adnodd wedi creu Helpu eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu (HYTTL) ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9, 10 ac 11. Lansiwyd HYTTL ym mis Ionawr 2022.
- Rhannwyd pecynnau cyfathrebu dwyieithog ar gyfer HYCTL a HYTTL ag ysgolion.
- Bydd datblygwr yr Adnodd yn gweithio ochr yn ochr â GwE, gan rannu gwybodaeth mewn fforymau Penaethiaid Cynradd ac Uwchradd.
- Datblygwyd pecynnau hyfforddi i gymorthyddion dysgu eu defnyddio efo rhieni (HYCTL a HYTTL) - un sesiwn i gyflwyno rhieni i wefan HYCTL a HYTTL ac ati.
- Datblygwyd pecyn adolygu i ysgolion uwchradd gan ddatblygwr yr Ymchwil, a rhannwyd hwn â 54 ysgol uwchradd.
- Mae'r Grŵp Rhanbarthol wedi cyfarfod pob tymor i drafod cynnydd - roedd datblygwr yr Ymchwil yn bresennol i rannu diweddariadau.
- Cytunodd y Grŵp Rhanbarthol bod angen trafod ymhellach efo ysgolion ar y ffordd orau ymlaen wrth ddefnyddio'r adnoddau hyn gyda rhieni. Mae cynrychiolwyr yr ALl wedi adnabod ysgolion posibl i gymryd rhan yn y cynllun peilot efo'r pecyn hyfforddi i gymorthyddion dysgu.
- Iechyd, Lles a Gwytnwch Emosiynol (EHWR) - cyflwynodd Donna Jones a Richard Hatwood wybodaeth am y rhaglen, sy'n addas i blant 0 i 18 oed.
- Crëwyd llwyfan ar wefan GwE gyda gwybodaeth i Rieni, Gofalwyr ac Ysgolion - mae hyn yn sicrhau mynediad hawdd i bawb.
- Mae COVID wedi golygu y bu'n rhaid gohirio hyfforddiant CD oherwydd prinder staff a chynhwysedd mewn ysgolion - darperir erbyn hanner tymor mis Mai 2022.

AILGYDIO MEWN DYSGU

Mathemateg uwchradd

Datblygwyd gwefan Maths.Cymru i gynnwys adnoddau i gefnogi ymyraethau yn CA3 a CA4. Yn CA4, mae digon o adnoddau ar gael i gefnogi'r haenau sylfaen a chanolradd, a'r haen uwch ar gael cyn mis Medi 2021. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys fideos efo cyfarwyddiadau, taflenni gwaith ac atebion yn addas ar gyfer dysgu TGAU ac enghraifft o gwestiwn TGAU yn cael ei gwblhau mewn clip fideo.

Yn CA3, datblygwyd adnoddau a fydd ar gael cyn mis Medi 2021. Mae'r rhain yn cynnwys PowerPoint cyn ac ar ôl asesu, adnoddau i gefnogi'r dysgu sy'n cynnwys dolenni i glipiau fideo efo cyfarwyddiadau, cwestiynau enghreifftiol a thasgau i ddysgwyr eu cwblhau a'u marcio eu hunain.

Rhannwyd gwybodaeth am y wefan a'r adnoddau ar gyfer CA4 gyda'r Pennaeth Mathemateg yn rhanbarthol yn ystod 2020 ac ar gyfer CA3 gyda'r Cydlynwyr Rhifedd yn rhanbarthol yn ystod 2020/21. Gwelwyd bod defnyddio'r fforymau a sefydlwyd wedi bod yn effeithiol.

Mae rhai ysgolion yn gweithio ar deialu'r defnydd o adnoddau Maths.Cymru i gefnogi dysgwyr gyda'u rhaglenni RRRS. Darparwyd cymorth fel yr oedd angen ac mae'r prosiectau hyn yn eu camau cyntaf. Bydd angen adolygu cynnydd yn Nhymor yr Hydref. Mae dwy ysgol yn datblygu'r prosiect - y ddwy yng Ngwynedd.

Llythrennedd uwchradd

Datblygwyd yr adnoddau ar wefan Herio i gefnogi sgiliau llythrennedd sylfaenol dysgwyr. Defnyddir y rhain ar draws y rhanbarth. Mae 11 ysgol wrthi'n gweithredu'r rhaglen ymyrraeth 'Building Reading Power'. Cynhaliwyd pum sesiwn hyfforddiant a bu pob ysgol ar y sesiynau hyn. Datblygwyd deunyddiau cefnogol ac adolygir cynnydd yn nhymor yr Haf.
Mae ysgolion yn parhau efo'r cynllun peilot hwn ac mae un nofel arall yn cael ei darparu.

Cyfeirier hefyd at Amcan 2 - Ymchwil ac arfarnu

AMCAN 5 – CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA

cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cyfrwng i ddysgu a gwella'u harferion yn

barhaus.

YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID

Datblygu prosesau adolygu gan gymheiriaid ymhellach mewn ysgolion er mwyn cefnogi gweithrediadau hunanwerthuso cadarn a gwaith cynllunio gwelliant ar bob lefel.
Datblygu'r gallu i arwain ledled y system.
Gwreiddio adolygu gan gymheiriaid fel agwedd allweddol ar wella ysgolion ledled y rhanbarth.
Cyn dyfodiad y pandemig COVID, cytunwyd ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol â phenaethiaid ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. At hyn, fe ddosbarthwyd model adolygu gan gymheiriaid (y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*) i randdeiliaid a gafodd ei ardystio gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

Derbyniodd holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Erbyn Mawrth 2022 mae 29 o Ymgynghorwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cyfoedion a hwyluswyr gwelliant fel rhan o'r *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*. Derbyniodd holl aelodau staff GwE ddiweddariad ar hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* ar Fedi 17eg 2021. Hyfforddwyd 13 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar Hydref 4ydd 2021 fel cyflwynwyr rhaglen, ac yn dilyn rhaglen o gysgodi hyfforddiant gallant bellach gyflwyno hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i ysgolion a chlystyrau. Golyga hyn erbyn Mawrth 2022 fod un ar hugain o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a'r gallu i gyflwyno'r rhaglen partneriaethau ysgolion yn llwyddiannus.

Erbyn Mawrth 2022, mae deunaw clwstwr/ cynghrair (105 ysgol) wedi derbyn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* ac maent wedi mynd ati eisoes, neu'n paratoi, i gyflawni gwaith adolygu gan gymheiriaid yn ystod tymor yr haf / cychwyn tymor yr hydref 2022. Mae 161 o benaethiaid/uwch arweinwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid ledled y rhanbarth. Mae 154 o uwch arweinwyr/arweinwyr canol ac athrawon medrus wedi'u hyfforddi fel '*hwyluswyr gwelliant*'. Bu hyn yn fodd i'r arweinwyr a'r athrawon fanteisio ar addysg broffesiynol o safon a byddai'n cyfrannu tuag at wella'r gallu o ran arweinyddiaeth ledled y rhanbarth. Bu i'r haen gyntaf o ysgolion cynradd a'r clystyrau sydd ynghlwm dderbyn yr hyfforddiant ar gychwyn tymor yr Haf 2021. Oherwydd effaith y pandemig fe gynigwyd hyfforddiant ychwanegol i'r ysgolion hynny hyfforddi staff ychwanegol a chynyddu eu cynhwysiant ar gyfer y Gwaith yn Ionawr 2022. Mae'r hyfforddiant diweddaraf ar gyfer ysgolion uwchradd/y clystyrau sydd ynghlwm wedi'i gyflwyno yn ystod Mis Mawrth 2022. Cafodd yr holl ysgolion arbennig yn y rhanbarth gyflawni hyfforddiant llawn yn ystod tymor yr haf 2021.

Mae rhaglen ar waith i gynnig hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i bob un o'r 407 o ysgolion rhanbarthol a'r Unedau Cyfeirio. Y bwriad yw hyfforddi tua 15 o glystyrau pob tymor yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22 ac yna 2022-23. Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â'r gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i werthuso'u cynnydd wrth gyflawni'r daith ddiwygio. I'r perwyl yma mae cyfres o gwestiynau adlewyrchol gyda ffocws ar y daith diwygio wedi eu ffurfio i gyd fynd a'r broses cymheiriol.

Ym mis Medi 2021, gofynnwyd i ysgolion a chlystyrau fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*. Cafwyd cyfanswm o 33 o glystyrau ar draws y rhanbarth yn mynegi diddordeb, a oedd yn cynnwys 193 o ysgolion rhanbarthol. Mae 33 o ysgolion wedi derbyn yr hyfforddiant yn Fis Mawrth 2022 ac fe drefnwyd bellach i weddill y clystyrau dderbyn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* yn ystod Tymor yr Haf / Hydref 2022. Tri chlwstwr / cynghrair o ysgolion wedi eu hadnabod i'w cynnwys mewn astudiaeth achos ag ymchwil i effaith y rhaglen yn y flwyddyn 2022-23.

CYMELL A MENTORA

Darparu hyfforddiant ar Gymell a Mentora
Cafodd ddeg o aelodau staff GwE wyth sesiwn hyfforddiant ar gyfer cymhwyster ILM Lefel 7 'Certificate for Executive and Senior Level Coaches and Mentors' ac mae mwy na hanner y tîm wedi cyflwyno eu dau aseiniad cyntaf i'w hachredu. Rydym wedi sefydlu cyfarfodydd rheolaidd i'r Tîm Craidd hwn rannu gwybodaeth a chefnogi gwaith a datblygiad personol y naill a'r llall.

Mae sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' Cenedlaethol ar gyfer 2021-22 wedi cael eu darparu gyda dau o'r Tîm craidd yn cyflwyno'r sesiynau cyfrwng Cymraeg. Mae holl staff GwE wedi derbyn yr hyfforddiant ynghyd â nifer fechan o Gydlynwyr ADY, Mentoriaid ANG ac Arweinwyr ysgolion rhanbarth GwE.

Adolygwyd y gweithgareddau 'Lle i Fyfyrio' gan fod enghreifftiau o gam-adnabod y rheiny oedd i gael eu mentora. Mae ail rownd y ddarpariaeth wrthi'n cael ei chynnal gydag amryw o enghreifftiau ble mae'r gwasanaeth wedi bod

yn fuddiol.

Mae sesiynau diweddaru carfan 2020-21 wedi eu darparu yn ystod tymor yr Hydref.

YSGOLION SY'N ACHOSI PRYDER

Rhaglen Beilot Genedlaethol i Ysgolion sy'n Destun Pryder
Cryfhau strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi a herio ysgolion sy'n destun pryder
Gofalu bod pob YCG yn mynd i'r afael yn effeithiol â rhaglenni cymorth cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer CiG ac ymgysylltu â chymheiriaid, rhwydweithio cynghrair/clwstwr ac ehangach.

Yn gynnar yn 2021, ffurfiodd ymgynghorwyr GwE ac uwch swyddogion pob awdurdod lleol grŵp gorchwyl a gorffen, dan arweiniad y Bwrdd Rheoli, i adolygu a datblygu ymhellach y strwythurau a'r prosesau ar gyfer cefnogi a herio ysgolion sy'n destun pryder. Gan ystyried y dull cenedlaethol esblygol gydag ysgolion sy'n destun pryder, roedd y grŵp am sicrhau bod y dull gweithredu rhanbarthol yn ddigon cadarn a grymus i adnabod a chefnogi'r cymorth i'r ysgolion hyn a bod mwy o gysondeb ar draws awdurdodau lleol.

Mae rhaglen waith y grŵp gorchwyl a gorffen wedi sicrhau'r effaith a'r camau a nodir isod:

- mabwysiadu iaith a geirfa fwy adeiladol i'w defnyddio wrth drafod pryderon a chymorth dilynol efo ysgolion. Er mwyn symud oddi wrth y stigma o gategoreiddio a chyhoeddusrwydd, ystyrir bod pob ysgol ar gontinwwm o annibyniaeth tuag at hunan wella.
- Mae'r dull sydd wedi'i fabwysiadu yn un 'hawl a haeddiant' i ysgolion ac yn canolbwyntio ar yr elfen gymorth a sut mae angen i natur a ffocws y pecyn cymorth fod yn benodol ac yn agored i ble mae ysgolion arni ar eu taith. Mae hyn wedi arwain at ddeialog broffesiynol sy'n fwy agored a thryloyw rhwng ymgynghorwyr a swyddogion ALl ac efo arweinwyr ysgolion, gan feithrin perthynas iachach.
- Diffiniwyd set gyffredin o egwyddorion, gwerthoedd ac ymddygiadau sy'n sail i'r gwaith ym mhob awdurdod lleol. Unwaith eto, mae hyn wedi cyfrannu at berthynas sy'n fwy agored, gonest, tryloyw a cholegol efo ysgolion.
- Cytunwyd ar set gyffredin o ysgogwyr a throthwyon i adnabod pryderon yn yr agweddau hyn ar wella ysgol - Safonau, Dysgu ac Addysgu, Arweinyddiaeth, Cyllid, AD, Rheoli Gwasanaethau, Cynhwysiant, Presenoldeb, Llesiant ac ADY. Mae hyn wedi sicrhau dull gweithredu mwy cyson ar draws y rhanbarth wrth adnabod ysgolion sy'n destun pryder.
- Diffiniwyd sut allai ac y dylai cymorth edrych pan fydd pryder wedi'i adnabod. Mae hyn wedi arwain at gysondeb wrth ddarparu cymorth i ysgolion sy'n destun pryder ar draws y rhanbarth.
- Cynhaliwyd gweithdai hyfforddiant efo ymgynghorwyr a swyddogion i sicrhau bod yr ysgogwyr a'r trothwyon hyn yn cael eu gweithredu mewn ffordd gyffredin a chyson. Bu'r gweithdai hyfforddiant yn fodd i grisialu ac atgyfnerthu nifer o faterion ynghylch cyfres o gwestiynau allweddol e.e. Beth yw 'pryder'? Pa mor fuan ydym ni'n tynnu sylw at bryder? Sut wnawn ni sicrhau ansawdd y pryder cyn rhannu efo'r ysgol? Sut wnawn ni reoli'r ffordd y cyfathrebir pryderon i'r ysgol? Beth ddylai lefel ofynnol y dystiolaeth atodol fod ar gyfer pryder? Pryd mae 'cyfuno' pryderon yn arwain at adnabod ysgol sy'n destun pryder?
- Gweithredwyd strwythurau a phrosesau diwygiedig ym mhob awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys 'grŵp aml-asiantaethol' gyda'r aelodau yn cynnwys aelodau tîm GwE a'r swyddogion arweiniol o dîm cymorth yr awdurdod ar gyfer cynhwysiant, ymddygiad, presenoldeb, ADY ac AD. Mewn cyfarfodydd, rhennir yr wybodaeth ddiweddaraf am ysgolion fel bod modd cael trosolwg holistaidd o bryderon ac/neu gynnydd. O ganlyniad, ceir mwy o eglurder ynghylch beth sydd angen ei wneud a phwy sy'n gyfrifol amdano.
- Mae gan bob ysgol sy'n destun pryder gynllun 360 holistaidd cynhwysfawr. Mae hyn yn sicrhau bod modd i bob ysgol gael y cymorth gofynnol yn amserol.
- Bydd GwE a Swyddogion yr ALl yn monitro cynnydd ac effaith. Y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr Addysg perthnasol sydd yn atebol am effeithiolrwydd y broses yn y pendraw, a fydd yn cadeirio Bwrdd Ansawdd yr ALl ac yn cadarnhau'r cynlluniau 360. Bydd Bwrdd Ansawdd yr ALl yn cael diweddariad cyson ar gynnydd ac mae bellach mewn gwell sefyllfa, ble a phryd bo angen, i benderfynu a oes angen addasu neu gryfhau cynllun cymorth neu, ble nad yw ysgol yn gwneud y cynnydd gofynnol ar y cyflymdra disgwyliedig, penderfynu a oes gofyn defnyddio ei bwerau statudol i ymyrryd.
- Rhwng 2019 a 2021, roedd 14 ysgol uwchradd mewn categori dilyniant Estyn [7 o'r rheiny mewn categori statudol]. Mae'r nifer bellach wedi gostwng i 3. Dros yr un cyfnod, mae nifer yr ysgolion cynradd mewn dilyniant wedi gostwng o 10 i 1.

YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU (YSD)

Sicrhau fod GwE a'i holl weithlu yn parhau i arddel holl ofynion a gwerthoedd Sefydliad sy'n Dysgu.
Cynorthwyo ysgolion ar draws y rhanbarth sydd heb ymgysylltu ag YSD i ailgydio yn y broses yn llwyddiannus ac

drwy hynny cefnogi eu taith diwygio ar gyfer CiG
Sicrhau fod ysgolion y rhanbarth yn gwneud defnydd effeithiol o'r Adnodd Cenedlaethol Gwerthuso a Gwella i gefnogi gwerthoedd YSD.

Yn dilyn dadansoddiad o ymatebion staff GwE i'r holiadur Sefydliad sy'n Dysgu amlygwyd mai 'Sefydlu diwylliant ymholi, ymchwilio ac arloesi' oedd y dimensiwn oedd angen ei ddatblygu ymhellach. Yn ystod y cyfnod pandemig mae'r agwedd yma wedi cryfhau yn sylweddol a'r gwasanaeth wedi ail bwrpasu a datblygu ei hun 7 gwaith dros y cyfnod yma er mwyn ymateb i anghenion ysgolion. Yn sgil hyn, mae YCG GwE wedi gorfod cynnal ymchwil er mwyn darganfod dulliau amgenach i gefnogi ysgolion dros y cyfnod ansicr yma ac wedi arwain at waith arloesol yn y defnydd o TGCh. Mae'r 4 thema trawsliniol o Amser, Technoleg, Ymddiriedaeth a Meddwl gyda'n gilydd wedi bod yn hanfodol yn ystod y cyfnod yma er mwyn cryfhau ymhellach partneriaeth y gwasanaeth gyda'r ysgolion.

Mae'r ymgysylltu gyda'r ysgolion yn ystod cyfnod y pandemig wedi gorfod bod yn sensitif iawn oherwydd yr holl bwysau rheolaethol o sicrhau fod iechyd a lles eu disgyblion a staff yn dod gyntaf. Sgil effaith hyn yw fod ysgolion wedi datblygu yn naturiol mewn nifer o'r dimensiynau e.e. sefydlu diwylliant o ymchwilio, ehangu defnydd o systemau, hyrwyddo dysgu mewn tîm a datblygu gweledigaeth a rennir. Mae'r 4 thema trawsliniol hefyd wedi datblygu'n sylweddol – yn enwedig yr elfen technoleg.

Mae ysgolion GwE sydd yn rhan o'r peilot wedi cyflwyno rhestrau chwarae ar gyfer yr adnodd cenedlaethol fydd yn cael ei rannu fel arfer effeithiol ar wefan Hwb y llywodraeth.

Mae amgylchiadau'r pandemig wedi golygu nad yw'r adnodd wedi ei lansio yn swyddogol ar gyfer holl ysgolion y rhanbarth ac ni fydd hynny yn digwydd hyd Mai 21ain. Bydd cyfle wedyn i sicrhau fod ysgolion yn datblygu gwell dealltwriaeth o sut i ddefnyddio'r adnodd pe dymunent wneud hynny.

FFRAMWAITH GWELLA ANSAWDD

Datblygu defnydd ysgolion o'r Pedwar Diben fel rhan o'r Fframwaith Gwella Ansawdd i arfarnu'r arferion a'r blaenoriaethau cyfredol.
Er bod y fframwaith wedi'i gydnabod yn gyffredinol, bu'r gweithredu yn dameidiog ac yn wannach o lawer oherwydd y pandemig. Bydd y cyfeirio yn yr hyfforddiant ar asesu a chynnydd yn rhoi hwb ychwanegol ac yn rhoi cyd-destun i'w ddefnydd. Bydd ysgolion yn gallu ail-ymweld â'r broses a mesur cynnydd ac ail-ddiffinio anghenion datblygu wrth symud ymlaen. Bydd yr hyn sy'n cyd-fynd â'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yn creu mwy o fomentwm felly hefyd y cyfleoedd i ysgolion wella'u gwaith cynghrair/clwstwr.

AMCAN 6 – BUSNES

Sicrhau bod GwE yn meddu ar drefn llywodraethu gryf a chefnogaeth busnes a gweithredol effeithiol sy'n cynnig gwerth am arian.

Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd
Mae'r fframwaith atebolrwydd eglur a chadarn yn gryfder allweddol o fewn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl yn ymwneud â'r holl lefelau cynllunio yn mynd i'r afael â holl agweddau gwaith GwE ac yn dangos cyfraniad y gwasanaeth i'r agenda trawsnewid yn glir. Mae'r cynlluniau wedi'u prisio'n llawn gyda meini prawf o ran llwyddiant a cherrig milltir eglur ar gyfer cyflawni amcanion.

Mae yna drefniadau hunanwerthuso manwl. Caiff cynlluniau eu hadolygu'n chwarterol gan werthuso'r cynnydd a'r effaith. Mae'r staff ar yr holl lefelau'n deall eu cyfrifoldebau o ran gwelliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae pob Awdurdod Lleol yn meddu ar gynllun busnes manwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff y cynnydd tuag at yr amcanion y cytunwyd arnynt ar lefel awdurdod lleol eu monitro'n chwarterol. At hyn, bydd yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol yn eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd. Caiff problemau parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunanwerthuso'n nodwedd gref yng ngwaith GwE ac mae'r broses hunanwerthuso'n gylchol ac yn barhaus. Mae cryn bwyslais ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ynghyd â phwyslais cyson ar gynnydd yn unol â blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn mynd ati'n gywir i adnabod meysydd perfformiad da a meysydd i'w datblygu, neu feysydd lle mae elfen o risg o ran gwella profiadau a deilliannau addysgol i'r dysgwyr.

Gwerth am Arian
Mae gan y consortiwm brosesau rheoli cyllid effeithiol ar waith. Mae'r gwaith cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol ac mae staff GwE, yr awdurdod lleol penodol a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant o ran grantiau'n rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn ategu'r gwaith o gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Yn sgil defnydd cynyddol effeithiol o'r data i adnabod y blaenoriaethau allweddol, caiff y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a'r penderfyniadau ynghylch cynllunio ariannol ei gryfhau, gan fod y ffrydiau gwaith sy'n ategu'r cynllun busnes yn nodi'r adnoddau sydd i'w defnyddio'n glir.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r rhanddeiliaid i gyd o'r un farn erbyn hyn ynghylch sut i asesu gwerth am arian yng nghyswllt gweithgareddau GwE o fewn strwythurau ac amcanion y cynllun busnes.

Cofrestr Risg
Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli risgiau'n gywir ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r cofnod risgiau yn ddogfen fyw ac fe gaiff ei diweddaru'n rheolaidd er mwyn adnabod risgiau cynyddol neu risgiau nad ydynt mwyach yn risgiau lefel uchel. Caiff y ddogfen ei hadolygu pob mis mewn cyfarfod arweinyddiaeth uwch. At hyn, mae'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cofnod pob chwarter.

Mae GwE yn rheoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol ac mae hyn yn ei dro yn sicrhau modd iddynt gefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio'r adnoddau'n effeithiol a bodloni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

Systemau rhannu gwybodaeth
Cafodd effeithiolrwydd 'Tableau /Analytics' fel adnodd dadansoddi ar gyfer G6 ei rannu gyda'r Uwch Dîm Rheoli. Sefydlwyd cyfrifon ar gyfer aelodau'r Uwch Dîm Rheoli ac mae cyfrifon ar gyfer yr Arweinwyr Craidd wedi eu creu yn ystod tymor yr Hydref 2021. Caiff gwybodaeth o'r adnodd dadansoddi ei defnyddio'n effeithiol eisoes i lywio adroddiadau system fel y rhaglen trawsnewid ADY a hefyd ymgysylltiad ysgolion â chynnig dysgu proffesiynol y Cwricwlwm i Gymru. Dangosfyrddau ychwanegol i ddadansoddi canlyniadau TGAU a Safon Uwch wedi eu llwytho a'u rhannu ac yn bwriadu datblygu mwy o ddangosfyrddau yn ystod y flwyddyn i rannu gwybodaeth.

Bu i'r tîm ADY a'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt gyflawni gwaith effeithiol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn mynd ati i ail-ymwneud â G6 yn dilyn cyfnodau clo'r pandemig. Bu hyn yn canolbwyntio'n arbennig ar gerrig milltir trawsnewid ADY gan arwain at gynnydd mewn ysgolion sy'n cymryd rhan ac yn cwblhau statws eu cynnydd cyfredol. Arweiniodd hyn at well dealltwriaeth o'r gofynion ar gyfer y meysydd lle mae angen cefnogaeth bellach. Cynnydd wedi bod yn y defnydd o'r modiwl ADY gan ysgolion i gefnogi adroddiadau gwaelodlin ac yn ystod ymweliad Estyn. Cynhaliwyd adolygiad cyflawn o ddefnydd o fodiwlau G6 yn ystod Mis Chwefror 2022 ac fe gyflwynwyd am ystyriaeth gan yr Uwch dîm Rheoli.

Cafodd rhaglen dreigl o ran sefydlu a chefnogaeth ei chynnig i Benaethiaid newydd ac aelodau'r Uwch Dîm Reoli ledled y rhanbarth, a hynny'n rhithwir a drwy ymweliadau wyneb yn wyneb. At hyn, mae mwy a mwy o ysgolion wedi caffael hawliau gweinyddol dros eu cyfrifon staff G6 eu hunain. O ganlyniad, erbyn hyn, mae modd i'r ysgolion reoli strwythurau eu cyfrifon eu hunain ar ran eu mynediad.

Cydweithiodd unigolion arweiniol yn effeithiol gyda'r tîm digidol i ddatblygu potensial Canolfan Cefnogaeth GwE ymhellach. Nifer bresennol yr ymweliadau â thudalennau yw 65,000 gyda 12,500 yn cael eu lawr lwytho. Mae Prif Wefan GwE wedi ei datblygu i gynnwys adnoddau CiG fydd yn cael ei ddiweddaru yn rheolaidd pan ddaw adnoddau i law gan y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol.

Gyda dyfodiad Cwricwlwm i Gymru a'r angen i adnabod a mesur cynnydd dysgwyr mae offeryn wedi ei ddatblygu sy'n galluogi ysgolion i olrhain amrediad o wybodaeth i asesu a mesur cynnydd. Mae'r offeryn wedi ei dreialu gan garfan o ysgolion. Bwriedir i hwn fod ar gael am ddim i ysgolion yn y dyfodol agos.

Rydym eisoes yn rhannu gwybodaeth gydag ysgolion drwy boblogi Office 365 a rhannu ffolderi. Rydym yn edrych i ehangu'r ddarpariaeth yma a hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd i aelodau staff o'r awdurdodau lleol gael mynediad hefyd. Ar hyn o bryd rydym yn rhannu dangosfyrddau Grantiau, Fframwaith Cyfoethogi ansawdd gyda'r bwriad o rannu'r offeryn i fesur y cynnydd mae ysgolion yn ei wneud i wireddu'r Cwricwlwm Newydd. Cyflwynwyd

papur yn amlinellu ein defnydd o Office 365 i'r Uwch Dîm a'r Bwrdd Rheoli gyda'r bwriad i adolygu addasrwydd ein systemau i'r dyfodol.

2. ATODIAD

Data Rhanbarthol.